

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

**Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau
(Cymru) Adroddiad Pwyllgor
Cyfnod 1**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8032
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

**Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau
(Cymru) Adroddiad Pwyllgor
Cyfnod 1**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman
(Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Alun Davies
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Jocelyn Davies
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Gwyn R Price
Llafur Cymru
Islwyn



Gwenda Thomas
Llafur Cymru
Castell-nedd



Rhodri Glyn Thomas
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Leighton Andrews
Llafur Cymru
Rhondda



Jenny Rathbone
Llafur Cymru
Canol Caerdydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	7
Telerau'r gwaith craffu	7
Dull y Pwyllgor o weithredu	8
2. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	9
Moderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol	10
Camddefnyddio safleoedd carafannau gwyliau	13
Pa mor effeithiol yw'r ddeddfwriaeth bresennol o ran rheoli'r defnydd o garafannau gwyliau?	16
3. Rhan 1 - Cyflwyniad	20
4. Rhan 2 - Trwyddedu	22
Parhau â thrwyddedau Deddf 1960	22
Parhad trwyddedau safle	23
Rheoli perygl llifogydd	25
Archwiliadau safle ac adolygu trwyddedau	27
Person addas a phriodol	30
Rheolwyr interim	33
Pŵer i godi ffioedd	35
5. Rhan 3 - Y Prawf Preswyllo	39
6. Rhan 4 - Cytundebau Carafannau Gwyliau	43
Y gofyniad i roi datganiad ysgrifenedig ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y gwneir y cytundeb carafannau gwyliau	45
Gofyniad i ymgynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â safle ...	47
7. Rhan 5 - Amddiffyn rhag aflonyddu	50
8. Rhan 6 - Atodol a Chyffredinol	53
9. Canlyniadau anfwriadol	54
Digartrefedd	54
Yr effaith ar dwristiaeth	56

10. Ystyriaethau ariannol.....	59
Cost gyffredinol y Bil	59
Atodiad A - Tystion.....	61
Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	62

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor wedi'u rhestru isod, yn y drefn y gwelir nhw yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell na ddylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 19)

Argymhelliad 2. Argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried adolygu Safonau Enghreifftiol 1989 ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau, gyda'r bwriad o gyhoeddi safonau diwygiedig sy'n cynnwys cyfeiriad at reoli perygl llifogydd. (Tudalen 19)

Argymhelliad 3. Argymhellwn fod y Gweinidog yn nodi cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau gorfodol, a'i fod yn gwneud hyn cyn diwedd y Cynulliad hwn. (Tudalen 19)

Argymhelliad 4. Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd carafannau gwyliau o leiaf unwaith bob tair blynedd. (Tudalen 30)

Argymhelliad 5. Argymhellwn fod y Gweinidog yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu cynllun sgorio risg cenedlaethol ar gyfer safleoedd gwyliau. (Tudalen 30)

Argymhelliad 6. Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r gofyniad i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol, ynghyd â'r darpariaethau cysylltiedig. (Tudalen 33)

Argymhelliad 7. Argymhellwn fod y ddarpariaeth o ran penodi rheolwyr interim yn cael ei hepgor o'r Bil, a bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwnnw. (Tudalen 35)

Argymhelliad 8. Argymhellwn y dylai'r Gweinidog arfer ei bŵer o dan adran 65 i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar godi ffioedd mewn perthynas â thrwyddedu safleoedd carafannau gwyliau. (Tudalen 38)

Argymhelliad 9. Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i hepgor y prawf preswyllo gorfodol fel un o amodau trwydded safle, ynghyd â'r holl ddarpariaethau cysylltiedig. Argymhellwn hefyd fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn rhoi rhagor o fanylion fel rhan o ddadl Cyfnod 1 ynghylch sut y mae'n bwriadu diwygio Rhan 3 o'r Bil i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth.

(Tudalen 42)

Argymhelliad 10. Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel y gellir lleihau'r cyfnod o 28 diwrnod ym mhob sefyllfa cyn y caiff cytundeb carafannau gwyliau ei wneud, gan gynnwys achos lle mae'r perchennog yn bwriadu gwerthu'r garafán i'r meddiannydd arfaethedig.

(Tudalen 47)

Argymhelliad 11. Argymhellwn fod y gofyniad ar berchnogion safleoedd i ymgynghori â meddianwyr ynghylch materion sy'n ymwneud â safleoedd yn cael ei hepgor, a bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwnnw.

(Tudalen 49)

1. Cyflwyniad

1. Ar 17 Mawrth 2014, cyflwynodd Darren Millar AC, (“yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil”), y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)¹ ('y Bil') a'r Memorandwm Esboniadol perthnasol.² Gwnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ddatganiad amdano yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Mawrth 2014.³

2. Yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2014, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor'), er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 24 Hydref 2014.

Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith canlynol i'r gwaith o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a hynny er mwyn ystyried: —

(i) egwyddorion cyffredinol y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru,

(ii) rhannau'r Bil, sef:

- Trwyddedu (Rhan 2);
- Prawf preswyllo (Rhan 3);
- Cytundebau carafannau gwyliau (Rhan 4);
- Amddiffyn rhag aflonyddu (Rhan 5);
- Atodol a Chyffredinol (Rhan 6),

(iii) unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried,

(iv) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil,

(v) goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith); a

(vi) priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol,

¹ [Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau \(Cymru\)](#)

² [Memorandwm Esboniadol y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau \(Cymru\)](#)

³ [Cofnod y Trafodion, 19 Mawrth 2014](#)

sy'n cynnwys tabl sy'n rhoi crynodeb o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth).

Dull y Pwyllgor o weithredu

4. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddodd randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gyfrannu at ei waith. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1.
5. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad 2.
6. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi'r casgliadau a'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi'u llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei waith.
7. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith.

2. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Trosolwg

8. Amrywiol oedd y gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru, gwahardd defnyddio carafannau gwyliau fel cartref parhaol, a darparu hawliau a diogelwch ychwanegol i berchnogion a meddianwyr carafannau gwyliau. Roedd llawer o'r dystiolaeth yn canolbwyntio ar ddefnyddio carafannau gwyliau fel cartref parhaol.

9. Roedd y rhai a gynrychiolai awdurdodau lleol yn gefnogol, ar y cyfan, i'r Bil ac yn ei ystyried yn gyfle i foderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol o ran rheoli safleoedd carafannau gwyliau. Er gwaethaf hyn, cododd yr awdurdodau lleol bryder am rai o elfennau'r Bil, yn enwedig archwiliadau safle, penodi rheolwyr dros dro a'r prawf preswyllo. Roedd y pryderon eraill yn ymwneud â'r goblygiadau ariannol i awdurdodau o ran diwallu'r gofynion arfaethedig ac effaith bosibl y Bil ar ddigartrefedd.

10. Ar y cyfan, roedd y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau yn gefnogol iawn o'r Bil a'i amcanion. Yn benodol yr oedd yn croesawu'r bwriad i gyflwyno cytundebau statudol ar gyfer carafannau gwyliau (Rhan 4) ac amddiffyn perchnogion carafannau gwyliau rhag aflonyddu (Rhan 5).⁴

11. Dywedodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain bod y diwydiant parciau carafannau gwyliau wedi rhoi cefnogaeth amodol i'r Bil. Roedd yn cydnabod bod y Bil yn ceisio rhoi elfennau o arfer gorau'r diwydiant ar sail statudol, ond mynegodd bryder difrifol am ei gymesuredd.⁵ Yn y pen draw, credir y byddai'r Bil yn rhoi parciau gwyliau a theithio yng Nghymru dan anfantais gystadleuol, gan beryglu'r swyddi y maent yn eu cynnal.⁶ Adleisiwyd y farn hon mewn sawl ymateb gan berchnogion safleoedd a gweithredwyr unigol.

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

⁶ Ibid

12. Roedd rhai ymatebwyr yn amau i ba raddau yr oedd yn briodol cymhwyso darpariaethau a luniwyd i fynd i'r afael â materion mewn parciau preswyl, a'r sector tai yn gyffredinol, i reoleiddio'r diwydiant carafannau gwyliau.

13. Roedd y Gweinidog Tai ac Adfywio a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn bendant nad oeddent o blaid y Bil.⁷ Eglurodd y Gweinidog Tai ac Adfywio ei fod, yn wreiddiol, wedi bod yn gyffredinol gefnogol i'r amcanion y mae'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yn ceisio'u cyflawni. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y Bil fel y'i cyflwynwyd, ac ar ôl ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan y diwydiant twristiaeth, nid oedd wedi ei "argyhoeddi fod y Bil hwn yn briodol nac yn gymesur."⁸

14. Wrth drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru, canolbwyntiwyd ar y themâu allweddol canlynol:

- a oedd Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (Deddf 1960) mewn perthynas â rheoli safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru angen ei moderneiddio;
- i ba raddau y camddefnyddir safleoedd carafannau gwyliau; a
- pha mor effeithiol yw'r ddeddfwriaeth bresennol o ran rheoli'r defnydd o garafannau gwyliau.

Moderneiddio'r ddeddfwriaeth bresennol

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

15. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan y rhai sy'n cynrychioli awdurdodau lleol i fwriad y Bil i foderneiddio'r gyfundrefn reoleiddio mewn perthynas â safleoedd carafannau gwyliau. Dywedodd yr awdurdodau lleol nad yw Deddf 1960 bellach yn ateb y diben, ac roeddynt o'r farn bod y Bil yn gyfle i fynd i'r afael â hyn.

16. Awgrymodd Cyngor Sir Penfro ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol, o dan Ddeddf 1960, roi trwyddedau safle ym mhob achos sydd wedi cael y caniatâd cynllunio priodol. Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol beidio â rhoi trwyddedau safle. Dywedodd ei fod "in firm support of modernising the regulatory framework for the

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS108

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

licensing of caravan sites”, a hynny er mwyn darparu “a more consistent basis and effective tools for ensuring compliance with conditions aimed at protecting public safety and consumer rights, and for preventing the potential uncontrolled drift towards residential use”.

17. Dywedodd Cyngor Sir Conwy rywbeth tebyg:

“There is certainly a view that the 1960 legislation is well out of date by contemporary standards, both for planning reasons and, indeed, the general regulatory regime of ensuring that the sites are run properly [...] It is important that the legislation is updated.”

18. Roedd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain yn cydnabod bod angen moderneiddio Deddf 1960, ond mynegodd bryder difrifol bod y Bil yn mynd ymhellach na hyn a'i fod yn cynnig diwygiadau radical. Eglurodd er bod y diwydiant, ar y cyfan, yn rhannu amcanion y Bil, roedd pryderon dwys ei fod yn “disproportionate given the anecdotal evidence base and the issues to be addressed”.⁹ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan berchnogion a gweithredwyr safleoedd unigol.

19. Er nad oedd y Gweinidog Tai ac Adfywio o blaid y Bil, dywedodd fel a ganlyn:

“Mae yna resymau da dros awgrymu fod angen moderneiddio Deddf 1960 o safbwynt carafannau gwyliau, yn rhannol i roi'r gallu i awdurdodau lleol ymateb yn well i faterion trwyddedu a rhoi iddynt y pwerau i adennill costau gorfodi'r ddeddfwriaeth. Wrth foderneiddio'r Ddeddf hon, gallem hefyd fynd i'r afael ag anghenion perchnogion carafannau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder iddyn nhw. Ffactorau eraill sydd angen sylw yw lefel y dirwyon y gellir eu gorfodi pan fo troseddau wedi digwydd [...] a'r camau sydd eu hangen i ddirymu trwydded.”¹⁰

20. Fodd bynnag, gwnaeth y Gweinidog yn glir y byddai ond yn cefnogi newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol “yn amodol ar ymchwil fanylach bellach ar natur y problemau a'r ffyrdd posibl o'u

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

datrys”.¹¹ Nid oedd yn credu mai ei le ef oedd comisiynu ymchwil o'r fath a dywedodd nad oedd yn fwriad ganddo wneud hynny, yn enwedig o ystyried nad oedd moderneiddio Deddf 1960 yn flaenoriaeth iddo.¹²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

21. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil pam ei fod yn credu bod y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â safleoedd carafannau gwyliau angen ei moderneiddio. Dywedodd:

“My Bill is about a thorough modernisation of a piece of existing legislation that is over 50 years old, which was designed for a very different holiday caravan industry. The purpose of my Bill is to support the industry going forward to address problems that exist within the industry at present, to ensure that it continues to be a very important part of our tourism offer in Wales.”¹³

22. Credai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil mai'r unig ffordd i gyflawni amcanion y Bil oedd trwy wneud newidiadau i ddeddfwriaeth.¹⁴ Mewn ymateb i'r awgrym y gallai'r Safonau Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Weinidog Cymru o dan Ddeddf 1960 gael eu diwygio i gwrdd â rhai o amcanion y Bil, dywedodd:

“[...] the model standards cannot make any provision in relation to residency, nor can they require written agreements between site owners and caravan owners [...] there does not seem to be any obvious and clear ministerial power that would allow the Ministers to direct local authorities to enforce the law more rigorously in this area.”¹⁵

23. Cafwyd cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad yn cadarnhau na ellid defnyddio'r Safonau Enghreifftiol at ddibenion gwahardd camddefnydd preswyl neu i gyflwyno cytundebau carafannau gwyliau.

24. Hefyd, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil na all canllawiau'r Gweinidog i awdurdodau lleol “cannot address the need for additional resources via the introduction of a fee regime for site inspections or

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 37, 11 Mehefin 2014

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 25 Mehefin 2014

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 25 Mehefin 2014

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 25 Mehefin 2014

place duties on local authorities regarding inspection and enforcement.”¹⁶

Camddefnyddio safleoedd carafannau gwyliau

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

25. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn amau i ba raddau yr oedd camddefnyddio carafannau gwyliau, drwy breswyllo ynddynt, yn broblem y mae angen mynd i'r afael â hi.

26. Roedd yr Athro Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam, yn amcangyfrif y gall fod tua 7,500 o bobl yn byw ar safleoedd carafannau gwyliau yng Nghymru. Seiliwyd hyn ar ganfyddiadau ei ymchwil i'r defnydd o garafannau gwyliau at ddibenion preswyl ar hyd arfordir Swydd Lincoln. Aeth ymlaen i amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru fod yn colli hyd at £3 - 4 miliwn o refeniw am nad yw pobl sy'n byw mewn carafannau gwyliau yn talu'r dreth gyngor, a bod hynny'n codi i tua £16 miliwn y flwyddyn, gan gynnwys grantiau gan y llywodraeth.¹⁷

27. Roedd yr Athro Fothergill yn gwrthwynebu'n gryf nod y Bil o wahardd defnyddio carafannau gwyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa. Awgrymodd y byddai'n fwy priodol "rheoleiddio'r" arfer o fyw mewn carafannau gwyliau dros y tymor hir, naill ai drwy ganiatáu i bobl fyw drwy'r flwyddyn ar ragor o safleoedd neu: “where closure still applies for some months of the year, by dropping the present ineffective residency test and thereby clarifying that caravan living is acceptable”.¹⁸

28. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi sôn bod camddefnyddio carafannau, drwy fyw'n barhaol ynddynt, yn broblem yn eu hardal, nid oedd llawer o dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwnnw. Roedd tystiolaeth a ddarparwyd wedi hynny gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn seiliedig ar ymatebion gan 14 awdurdod lleol, yn dangos y cafwyd 57 o gwynion am gamddefnyddio carafannau gwyliau at ddibenion preswyl yn y tair blynedd diwethaf.¹⁹ Wedi hynny, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil mai ef a fu'n gyfrifol am nodi 27 o'r cwynion hynny

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 25 Mehefin 2014

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS1

¹⁸ Ibid

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105A

mewn perthynas â'i waith etholaethol sy'n cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Conwy a Sir Ddinbych.²⁰

29. Eglurodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod astudiaeth ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych o'r boblogaeth symudol, a gynhaliwyd yn 2007, wedi amlygu tystiolaeth o gamddefnyddio carafannau gwyliau at ddibenion preswyl.²¹ Roedd y dystiolaeth hon yn seiliedig ar y tocynnau teithio rhatach ar fysiau, a'r budd-daliadau llesiant, a roddwyd i bobl a oedd â chyfeiriad carafán. Aeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ymlaen i esbonio bod y mater hwn wedi cael sylw cyn gynted ag y daeth i'r amlwg a bod prosesau wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny rhag i hyn ddigwydd eto.²²

30. Barn y Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain oedd: "there is no authoritative research as to the extent of residential misuse of holiday parks across Wales".²³ Fodd bynnag, roedd yn amlwg nad oedd cynrychiolwyr y diwydiant parciau carafannau gwyliau yn credu bod camddefnydd preswyl yn broblem.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

31. Yn ôl yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, mae defnyddio carafannau gwyliau fel preswylfeydd parhaol yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth a'r gymuned leol, a gall olygu bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tanariannu, gan fod llawer o'r bobl hyn wedi'u hepgor o'r ystadegau swyddogol.²⁴

32. Dywedodd: "Bydd manteision i'r diwydiant carafannau gwyliau yn sgil y Bil oherwydd bydd yn sicrhau na fydd proffidioldeb yn y dyfodol yn dioddef gan y niwed a achosir i enw'r da'r diwydiant carafannau gwyliau oherwydd bod safonau'n gostwng ar ddyrnaid o safleoedd lle mae defnydd preswyl yn broblem gynyddol".²⁵

33. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, "mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU, mae tystiolaeth bod cynnydd

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 25 Mehefin 2014

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 11 Mehefin 2014

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 41-49, 11 Mehefin 2014

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

²⁴ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 13

²⁵ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 231

mewn defnyddio carafannau gwyliau yn gartrefi parhaol”.²⁶ Fodd bynnag, mae'n mynd rhagddo i gydnabod bod y data swyddogol am barciau carafannau gwyliau yn brin a'i bod yn “anodd iawn nodi'n gywir nifer y bobl sy'n byw mewn carafannau gwyliau ar hyn o bryd” yng Nghymru.²⁷

34. Darparodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil rywfaint o ddata am y dreth gyngor, hawliadau budd-dal tai, cofrestriadau gyda meddygon teulu a throsedd, a oedd, yn ei farn ef, yn dangos i ba raddau y mae pobl yn byw'n barhaol mewn carafannau gwyliau yng Nghymru.²⁸ Dywedodd fod cyfrifiad 2011 wedi awgrymu “bod tua 6,000 o aelwydydd yn byw mewn carafannau neu strwythurau symudol, gyda thua 3,400 o aelwydydd ar safleoedd cartrefi mewn parciau, sy'n gadael 2,600 ar barciau carafannau gwyliau”.²⁹

35. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei fod, wrth lunio'r Bil, wedi cael cwynion am gamddefnyddio carafannau gwyliau at ddibenion preswyl o bob rhan o Gymru lle mae clystyrau sylweddol o barciau carafannau gwyliau.³⁰ Roedd yn honni nad oedd camddefnydd preswyl wedi'i gyfyngu i arfordir gogledd Cymru.³¹

36. Wedi hynny, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil fel a ganlyn:

“[...] er fy mod yn derbyn na fydd modd efallai i'r dystiolaeth sydd ar gael ddangos union faint y broblem camddefnyddio preswyl, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn amlwg yn awgrymu problem yng Nghymru a diffyg trefniadau gorfodi i fynd i'r afael â hi.

“O ystyried bod y dystiolaeth sydd wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno achos clir iawn i ddangos bod nifer sylweddol o garafannau gwyliau yng Nghymru yn cael eu camddefnyddio fel llety preswyl parhaol, a'i bod yn wir y tu hwnt i unrhyw ddadl nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol wedi'i bwriadu i ganiatáu defnydd o'r fath, credaf fod achos cryf bellach o blaid moderneiddio'r gyfundrefn

²⁶ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 13

²⁷ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 233

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 7 Mai 2014

²⁹ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 19 Mawrth 2014

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 7 Mai 2014

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 7 Mai 2014

drwyddedu, sydd dros 50 mlwydd oed, a'i gwneud yn addas i fynd i'r afael â'r mater hwn.”³²

Pa mor effeithiol yw'r ddeddfwriaeth bresennol o ran rheoli'r defnydd o garafannau gwyliau?

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

37. Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Hobourne Ltd a'r Clwb Carafannau, yn awgrymu nad oedd angen y Bil ac y gallai awdurdodau lleol wneud gwell defnydd o'r pwerau sydd eisoes ar gael iddynt i reoli'r defnydd o garafannau gwyliau.³³ Ar y mater hwn, awgrymodd y Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain, y dylai awdurdodau lleol, lle caiff amodau cynllunio neu drwyddedau safle eu torri sy'n cyfyngu ar ddefnyddio carafannau at ddibenion gwyliau, ddefnyddio'r dulliau gorfodi sydd eisoes ar gael iddynt.³⁴

38. Roedd y rhai a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol yn awgrymu mai rhan o'r rheswm am y prinder camau gorfodi y gwyddys amdanynt o dan y ddeddfwriaeth bresennol oedd diffyg adnoddau. Roeddent yn awgrymu y byddai'r cynigion yn y Bil i alluogi awdurdodau lleol i godi tâl am drwyddedu yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

39. Roedd rhai awdurdodau lleol yn croesawu'r bwriad i gyflwyno dulliau gorfodi ychwanegol, gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig a chydymffurfiaeth, gan awgrymu eu bod yn fwy priodol i fynd i'r afael ag achosion o dorri amodau safle nag erlyn o dan Ddeddf 1960.

40. Wrth roi sylwadau ar ei agwedd at orfodi o dan y ddeddfwriaeth bresennol, dywedodd Cyngor Sir Penfro:

“Limited formal enforcement action has been taken in response to identified non-compliance, with matters tending to be resolved informally or in rare circumstances through the application of wider health and safety powers. This approach has been influenced by a number of factors:

- Blurring of the boundaries and hence responsibilities under the planning legislation and caravan site licensing provisions.

³² Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS3

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

- Model conditions being ambiguous and therefore difficult to enforce.
- Absence of any national policy steer or guidance in the application of the (Caravan Sites and Control of Development) Act and associated conditions.”³⁵

41. Cyfeiriodd awdurdodau eraill, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd at y berthynas rhwng deddfwriaeth gynllunio a'r gyfundrefn bresennol o drwyddedu safleoedd. Roeddent yn esbonio bod yn rhaid i amodau'r drwydded safle adlewyrchu'r amodau cynllunio a roddir ar ganiatâd cynllunio ac y gall hynny, yn ymarferol, gyfyngu ar eu gallu i osod cyfyngiadau ar ddefnyddio carafannau at ddibenion gwyliau yn unig.³⁶

42. Cadarnhawyd gan Wasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad bod yn rhaid i amodau trwydded safle ategu'r caniatâd cynllunio, ac na allant fynd ymhellach na hynny.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

43. Wrth ddangos pam y mae angen rhagor o bwerau ar awdurdodau lleol i reoli'r defnydd o garafannau gwyliau, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol fel a ganlyn:

“[...] you cannot revisit a planning permission, but my Bill will give the opportunity to revisit and review holiday park licences in the future to ensure that they keep up-to-date and are refreshed in line with the modern industry practice and standards.”³⁷

44. Wrth roi sylwadau ar effeithiolrwydd awdurdodau lleol o ran ymchwilio i adroddiadau am gamddefnydd preswyl, ac yna mynd i'r afael â hynny, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“[...] in some cases, it is difficult for [local authorities] to enforce against residential misuse, because of the planning permissions in relation to the site.”³⁸

45. Ychwanegodd y byddai gofynion y Bil yn ei gwneud yn gwbl glir na ddylai carafannau gwyliau gael eu defnyddio fel prif breswylfa.³⁹

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS88

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 149, 5 Mehefin 2014

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 124, 25 Mehefin 2014

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 25 Mehefin 2014

Ein barn ni

46. Rydym yn cydnabod y lefelau amrywiol o gefnogaeth yn y dystiolaeth ar gyfer y Bil. Rydym hefyd yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid moderneiddio Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. Er ein bod yn cydnabod y gall fod achos dros foderneiddio, rydym yn pryderu am y dull a gynigir yn y Bil. Fel cynrychiolwyr y diwydiant parciau carafannau gwyliau, credwn fod y Bil yn mynd y tu hwnt i foderneiddio ac yn cyflwyno newidiadau diangen. Rydym yn cydnabod bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi ymrwymo i ddiwygio'r Bil mewn sawl maes os aiff ymhellach na Chyfnod 1. Er gwaethaf hyn, rydym yn pryderu bod risg y gallai'r newidiadau i'r gyfundrefn reoleiddio bresennol a gynigir gan y Bil achosi niwed anfwriadol i'r diwydiant yng Nghymru.

47. O ran camddefnyddio carafannau gwyliau at ddibenion preswyl, nid ydym yn credu bod digon o dystiolaeth o gamddefnyddio i gyfiawnhau cyflwyno mesurau deddfwriaethol pellach. Rydym yn cydnabod yr awgrym yn y dystiolaeth bod y pŵer i reoli'r modd y defnyddir safleoedd carafannau gwyliau i'w gael yn y ddeddfwriaeth gynllunio. Mae'n bosibl y gallai cyflwyno mesurau ychwanegol er mwyn gwahardd camddefnydd preswyl drwy newid y gyfundrefn drwyddedu safleoedd ychwanegu at gymhlethdod y trefniadau presennol.

48. Er gwaethaf yr uchod, rydym yn pryderu am yr adroddiadau gan yr Aelod sy'n gyfrifol ac eraill bod budd-daliadau lles a gwasanaethau lleol, nas bwriadwyd ar gyfer twristiaid, yn cael eu darparu i gyfeiriadau ar barciau carafannau gwyliau. Er ein bod yn cydnabod y gallai'r rhain fod yn cael eu darparu i weithwyr sy'n byw'n gyfreithlon ar safleoedd carafannau, rydym o'r farn y dylai'r awdurdodau perthnasol fod â gweithdrefnau i sicrhau mai dyma'r achos. Felly, rydym yn falch bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi canllawiau i'r awdurdodau lleol yn y maes hwn.

49. Er ein bod yn cefnogi rhai o elfennau'r Bil ac yn credu eu bod yn haeddu trafodaeth bellach, sef cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau a'r ffocws cynyddol ar reoli'r risg o lifogydd wrth benderfynu ar amodau trwyddedau safle, nid ydym yn argyhoeddedig bod y rhain yn ddigon i gyfiawnhau Bil penodol. Ar sail hyn, ni allwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 25 Mehefin 2014

Rydym yn argymhell na ddylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

50. Nid oedd lleiafrif o'r Aelodau yn rhannu'r farn uchod, ac roeddynt yn fodlon i'r Bil symud ymlaen, yn amodol ar amryw ddiwygiadau.

51. Wrth ddod i'n casgliad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, trafodwyd a allai'r Safonau Enghreifftiol presennol ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 1960 gael eu defnyddio at ddibenion gwahardd defnydd preswyl, cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau, a sicrhau bod rheoli perygl llifogydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses drwyddedu safle.

52. Yn ôl Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad ni ellir defnyddio'r Safonau Enghreifftiol at ddibenion gwahardd camddefnydd preswyl nac i gyflwyno cytundebau carafannau gwyliau. Fodd bynnag, gallai'r safonau hyn gynnwys rhai agweddau ar risgiau a gweithdrefnau llifogydd, yn unol â Safonau Enghreifftiol 2008 ar gyfer safleoedd carafannau preswyl. O ystyried mai yn 1989 y cyhoeddwyd y Safonau Enghreifftiol ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau ddiwethaf, ac o ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd, credwn y byddai'n fuddiol adolygu'r safonau hyn.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn ystyried adolygu Safonau Enghreifftiol 1989 ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau, gyda'r bwriad o gyhoeddi safonau diwygiedig sy'n cynnwys cyfeiriad at reoli perygl llifogydd.

53. Rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd i gyflwyno cytundebau carafannau gwyliau gorfodol yw trwy deddfwriaeth. Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gyflwyno'r cytundebau hyn, a chredwn y byddant o fudd i berchnogion safleoedd a pherchnogion carafannau.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn nodi cyfrwng deddfwriaethol priodol ar gyfer cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau gorfodol, a'i fod yn gwneud hyn cyn diwedd y Cynulliad hwn.

54. Er na allwn gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, rydym yn cydnabod mai'r Cynulliad sydd i benderfynu a yw'r Bil i symud ymlaen ymhellach. Pe digwydd i'r Cynulliad gytuno ar yr egwyddorion cyffredinol, mae gweddill yr adroddiad hwn yn nodi ein casgliadau a'n hargymhellion ynghylch darpariaethau penodol, a byddem yn disgwyl i'r Aelod sy'n gyfrifol gymryd y rhain i ystyriaeth yn ystod y camau diwygio.

3. Rhan 1 - Cyflwyniad

Cefndir

55. Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r Bil. Mae hefyd yn cynnwys ystyr termau allweddol yn y Bil, gan gynnwys "carafannau gwyliau", "safle carafannau gwyliau", "perchennog" a "preswlydd".

56. Mae adran 3 yn darparu, at ddibenion y Bil, mai ystyr "safle carafannau gwyliau" yw unrhyw dir y gosodir carafannau arno, lle mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi at ddefnydd gwyliau yn unig, neu lle caiff y tir ei gynnig neu y bwriedir ei gynnig i'w ddefnyddio ar gyfer llety gwyliau. Mae Atodlen 1 yn darparu ar gyfer safleoedd nad ydynt yn cael eu hystyried yn safleoedd carafannau gwyliau. Byddai'r safleoedd hyn wedi'u heithrio o ofynion y Bil.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

57. Yr unig ymatebwyr i roi sylwadau ar Ran 1 oedd y Clwb Carafannau a Chynghrair Twristiaeth Cymru, ac roedd eu tystiolaeth ysgrifenedig, ar y cyfan, yn union yr un fath. Roeddent yn esbonio fod y derminoleg a ddefnyddir yn Atodlen 1 y Bil yn wahanol i'r hyn yn yr Atodlen gyfatebol i Ddeddf 1960. Yn benodol, mae paragraff 4 o Atodlen 1 y Bil yn cyfeirio at safleoedd carafannau gwyliau a "berchennir" gan sefydliadau sydd â thystysgrif o esemptiad, tra bo'r rhan gyfatebol o'r Atodlen i Ddeddf 1960 yn cyfeirio at safleoedd a "feddiennir" [*occupied*] gan sefydliadau â thystysgrifau o esemptiad. Cododd y Clwb Carafannau a Chynghrair Twristiaeth Cymru bryder y gallai'r newid hwn effeithio ar statws sefydliadau esempt, er bod hyn yn anfwriadol.⁴⁰

58. Galwodd y Clwb Carafannau yn benodol am i Atodlen 1 o'r Bil fod yr un fath â Deddf 1960, sydd wedi "gwasanaethu sefydliadau esempt yn dda am 54 mlynedd". Aeth ymlaen i ddweud: "...at the very least, we would wish to see a reversion to the word 'occupied'".⁴¹

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS28, HCS46

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS28

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

59. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol bod Atodlen 1 o'r Bil yn cadw pob un o'r esemptiadau a oedd gynt yn Neddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. Dywedodd:

“The use of ‘owner’ does not make any substantive change to the position as set out in the 1960 Act. This is because the Bill (Section 5) defines the meaning of ‘owner’ in the same substantive way that ‘occupier’ is defined in the 1960 Act. The change in terminology is simply for consistency with that used in the Mobile Homes (Wales) Act 2013 and to reflect modern legislative drafting conventions.”⁴²

60. Cadarnhaodd Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad mai cyflwyniadol yn unig oedd y newid yn y derminoleg o ran ystyr "perchennog".

Ein barn ni

61. Rydym yn cydnabod y pryder a fynegwyd yn y dystiolaeth bod y derminoleg a ddefnyddir yn y Bil mewn perthynas â safleoedd sy'n eiddo i sefydliadau eithriedig, ac a reolir ganddynt, yn wahanol i'r un yn Neddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960. Rydym yn croesawu'r eglurhad gan yr Aelod sy'n gyfrifol bod y Bil yn arddel pob un o'r esemptiadau a gynhwysir ar hyn o bryd yn Neddf 1960. O ystyried hyn, a'r cyngor a gafwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad, rydym yn fodlon â'r ystyr a roddwyd i "perchennog" yn adran 5, a'r termau eraill a ddiffinnir yn Rhan 1.

⁴² Llythyr gan Darren Millar AC, 9 Gorffennaf 2014

4. Rhan 2 - Trwyddedu

Parhau â thrwyddedau Deddf 1960

Cefndir

62. Mae adran 9 yn darparu y bydd trwyddedau a roddwyd o dan Ddeddf 1960 yn parhau i fod yn ddilys at ddibenion y Bil hwn, ond na fyddant yn parhau i fod yn ddilys oni fydd yr awdurdod lleol yn fodlon bod y rheolwr yn berson addas a phriodol. Rhaid i'r awdurdod lleol addasu'r trwyddedau presennol fel eu bod yn bodloni gofynion y Bil o fewn 12 mis ar ôl i adran 9 ddod i rym.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

63. Cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bryder ynghylch y bwriad i barhau â thrwyddedau safle a roddwyd o dan Ddeddf 1960. Roedd yn credu y byddai hynny: “place significant burden on local authorities to undertake checks on managers, review licences and inspect sites with no up-front income to recover costs”.⁴³

64. Roedd yn croesawu'r bwriad i gyflwyno ffioedd mewn perthynas â thrwyddedu safleoedd, ond dywedodd fod y pryderon ynghylch incwm o'r safleoedd presennol yn parhau oherwydd na fydd ffi flynyddol sy'n cael ei phennu yn unol â'r Bil yn cynnwys holl gostau'r awdurdodau lleol.⁴⁴

65. Wrth roi sylwadau ar y bwriad i barhau â'r trwyddedau safle presennol, dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio:

“Mae gan y cynnig i barhau trwyddedau safle sy'n bodloni'n barod y potensial i greu dryswch. Awgrymwyd yn flaenorol nad yw'r awdurdodau lleol eu hunain, mewn rhai ardaloedd, yn gwybod yn iawn pa safleoedd sydd wedi'u trwyddedu yn eu hardal a pha rai sydd heb - yn enwedig o sefydlwyd y safle cyn Deddf 1960.”⁴⁵

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

⁴⁴ Ibid

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

66. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd safleoedd a drwyddedwyd eisoes o dan Ddeddf 1960 "yn cael eu trin fel safleoedd â thrwydded o dan y Bil hwn" ac y bydd hyn yn "ysgafnhau'r baich gweinyddol ar berchnogion safleoedd ac awdurdodau lleol".⁴⁶

67. Yn ôl yr Aelod sy'n gyfrifol, amcangyfrifir y bydd y gost gyfunol i awdurdodau lleol o brosesu'r 1,500 o drwyddedau safle presennol, gan gynnwys cynnal y profion person addas a phriodol, tua £762,000. Wrth roi sylwadau ar yr amcangyfrif hwn, dywedodd:

"...dylid nodi y bydd gan bob safle eu trwyddedau presennol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol ac y bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn parhau. Nid yw'n wir, felly, y bydd angen datblygu trwyddedau o'r newydd yn llwyr."⁴⁷

Ein barn ni

68. Nodwn y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol am y goblygiadau o ran costau i awdurdodau sy'n gysylltiedig â pharhad trwyddedau safle a roddwyd o dan Ddeddf 1960. Rydym yn deall bod posibilrwydd y gallai'r costau hyn gael eu hadennill fel rhan o unrhyw daliadau ffi blynyddol a bennir gan yr awdurdodau gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir yn adran 39 o'r Bil.

69. Yn ogystal, yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, rydym yn argymhell bod y gofyniad i reolwyr safle gael eu dyfarnu'n bersonau addas a phriodol i reoli safle yn cael ei hepgor o'r Bil (gweler argymhelliad 6). Os gwneir hynny, bydd llai o gost i awdurdodau mewn perthynas â pharhad trwyddedau safle a roddwyd o dan Ddeddf 1960. Os caiff y gofynion ynghylch person addas a phriodol ei hepgor, rydym yn fodlon â'r darpariaethau mewn perthynas â pharhad trwyddedau Deddf 1960.

Parhad trwyddedau safle

Cefndir

70. Mae adran 11 yn darparu y bydd trwyddedau safle yn parhau am gyfnod amhenodol oni chânt eu terfynu. Fodd bynnag, mae'r Bil yn

⁴⁶ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 52

⁴⁷ Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

cynnwys gofynion i awdurdodau lleol adolygu amodau trwyddedau safle o leiaf unwaith bob pum mlynedd, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

71. Roedd lefelau amrywiol o gefnogaeth yn y dystiolaeth i'r cynnig bod trwyddedau safle a roddir o dan y Bil yn parhau am gyfnod amhenodol.

72. Roedd y rhai sy'n cynrychioli'r diwydiant carafannau gwyliau yn gadarn o blaid y cynnig. Dywedodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain:

“We are greatly relieved that the Bill does *not* propose time-limited site licences as this would severely undermine lenders’ confidence and therefore jeopardise industry investment, as well as remove customers’ access to credit.”⁴⁸

73. Roedd barn awdurdodau lleol yn amrywio rhywfaint ynghylch hyd arfaethedig y trwyddedau safle. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y dylai trwyddedau gael eu hadnewyddu o dro i dro, ac roedd o blaid adnewyddu'r trwyddedau yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i adolygu amodau trwyddedau, sef yr hyn sydd yn y Bil ar hyn o bryd. Aeth ymlaen i awgrymu “uchafswm o bum mlynedd ar gyfer trwydded safle”, er mwyn creu digon o refeniw drwy ffioedd trwyddedau safle er mwyn “sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gorfodi'r darpariaethau yn briodol”.⁴⁹ Yr un oedd barn Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Sir Ddinbych, a Chyngor Bro Morgannwg am hyn.⁵⁰

74. I'r gwrthwyneb, dywedodd Cyngor Sir Penfro fel a ganlyn:

“[...] because an annual fee has been introduced into the legislation, the review of conditions at five years, we think, would be sufficient to deal with the ongoing income-related matters, and to ensure that the site licence conditions were fit

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HSC107, HCS106

for purpose. So, they would not need to renew every five years.”⁵¹

75. Ar fater cysylltiedig, cydnabu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr alwad gan y diwydiant am drwyddedau safle nad ydynt yn gyfyngedig o ran amser, er mwyn rhoi'r hyder angenrheidiol i ail-fuddsoddi mewn safleoedd fel "ystyriaeth resymol".⁵²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

76. Wrth roi sylwadau ar y cynnig bod trwyddedau safle yn parhau am gyfnod amhenodol, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“Mae hyn yn parhau â'r trefniadau presennol o dan Ddeddf 1960 ac yn adlewyrchu pryderon yn y diwydiant ynglŷn ag effaith trwyddedau ‘cyfnod cyfyngedig’ ar eu busnesau, yn enwedig o ran gallu cyrchu at arian i ddatblygu’u busnesau.”⁵³

Ein barn ni

77. Nodwn y pryderon a godwyd gan yr awdurdodau lleol am yr effaith y gallai trwyddedau safle cyfnod amhenodol ei chael ar allu awdurdodau i gynhyrchu refeniw i dalu'r gost o orfodi'r gyfundrefn drwyddedu arfaethedig. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod y Bil yn darparu ar gyfer adolygu amodau trwyddedau safle yn rheolaidd, a chredwn fod hyn yn ddewis amgen derbyniol i drwyddedau â therfyn amser ac adnewyddu trwyddedau. O ystyried bod posibilrwydd y gallai'r costau sy'n gysylltiedig â'r broses adolygu gael eu hadennill fel rhan o unrhyw ffi flynyddol a bennir gan yr awdurdodau, nid ydym yn credu y bydd y trwyddedau safle cyfnod amhenodol arfaethedig yn achosi anfantais ariannol i awdurdodau. O ystyried hyn, a'r pryderon sydd gan y diwydiant y gallai trwyddedau â therfyn amser gyfyngu ar fuddsoddiadau yn y dyfodol, rydym yn fodlon â'r ddarpariaeth yn adran 11.

Rheoli perygl llifogydd

Cefndir

78. Mae adran 15 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth ystyried pa amodau i'w gosod ar drwyddedau safle, i ymgynghori ag

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 178, 11 Mehefin 2014

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS68

⁵³ Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

unrhyw gorff cyhoeddus yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli perygl llifogydd (Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd).

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

79. Ychydig o'r ymatebwyr a fynegodd farn am y gofynion yn adran 15. O'r rhai a wnaeth, awgrymodd y Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain nad oedd angen y gofyniad, yn bennaf oherwydd y byddai awdurdodau lleol yn annhebygol o roi caniatâd cynllunio i safle carafannau gwyliau mewn ardal lle mae perygl llifogydd. Eglurodd y gall awdurdodau, o dan y trefniadau trwyddedu presennol, osod amod ar y drwydded i'w gwneud yn ofynnol bod cynllun risg llifogydd yn cael ei lunio. Hefyd, eglurodd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i holl berchnogion parciau ynghylch llunio cynlluniau rheoli llifogydd, gadael mewn argyfwng, a hysbysu defnyddwyr.⁵⁴

80. I'r gwrthwyneb, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

“We would support a requirement for caravan sites located in flood risk areas to produce and implement a flood management/evacuation plan as well as associated warning notices and agree this should be secured as a condition on their licence in line with the advice set out in TAN15.

“This should be the case for all sites applying for an initial licence and those that require a renewal of their licence. In the cases of renewal, a caveat to re-visit any flood management plans/ site notices might be useful to ensure they are up to date.”⁵⁵

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

81. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol bod y "llifogydd dros y gaeaf yn dangos mor bwysig yw bod cynlluniau perygl llifogydd digonol ar gael ar gyfer Safleoedd Carafannau Gwyliau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd".⁵⁶

82. Dywedodd nad yw goblygiadau'r Bil i Gyfoeth Naturiol Cymru "yn feichus nac yn afresymol", ac aeth rhagddo i ddweud:

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 328, 11 Mehefin 2014

⁵⁵ CELG(04)-20-14 Papur 3, Llythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru

⁵⁶ Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

“[...] mae'r adnoddau ar-lein sydd ar gael, fel mapiau cynghori TAN15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd, yn dangos ar unwaith a yw safle wedi'i leoli mewn ardal lle mae perygl o lifogydd.”⁵⁷

Ein barn ni

83. Croesawn y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r diwydiant carafannau gwyliau i leihau'r perygl o lifogydd ar safleoedd carafannau gwyliau presennol. Er ei bod yn amlwg bod gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud yn y maes hwn eisoes, rydym yn credu y byddai'r trefniadau presennol yn gryfach pe byddent ar sail statudol. Fel y cyfryw, rydym yn cefnogi'r gofyniad yn y Bil i awdurdodau lleol gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â rheoli'r perygl o lifogydd wrth ystyried yr amodau i'w gosod ar drwyddedau safle. Credwn bod hwn yn ychwanegiad defnyddiol at y gofyniad presennol yn Neddf 1960 i ymgynghori â'r gwasanaeth tân ac achub am ragofalon tân. Gobeithiwn y bydd yn helpu i roi mwy o hyder i ddefnyddwyr.

Os na fydd y Bil yn mynd yn ei flaen, cyfeiriwn y Gweinidog at argymhelliad 2.

Archwiliadau safle ac adolygu trwyddedau

Cefndir

84. Mae adran 16 yn cyflwyno gofyniad newydd fod awdurdodau lleol yn archwilio safleoedd carafannau gwyliau o leiaf unwaith bob tair blynedd i fonitro a ydynt yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded safle ai peidio. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu amodau trwydded safle ar gyfnodau o ddim mwy na phum mlynedd.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

85. Roedd y rhai a gynrychiolai awdurdodau lleol yn mynegi pryder ynghylch y gofyniad ar awdurdodau i archwilio safleoedd, ac amllder arfaethedig yr archwiliadau hynny. Roedd yn amlwg eu bod o blaid parhau i archwilio safleoedd ar sail risg.

86. Wrth roi sylwadau ar y dull cyffredinol o archwilio busnesau, esboniodd Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

⁵⁷ Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

“[...]mae rhagdybiaeth yn erbyn cynnal archwiliadau rhagweithiol iechyd a diogelwch ar fusnesau os nad oes tystiolaeth fod archwiliad yn gymesurool a’r risgiau mewn perthynas â rheolaeth iechyd a diogelwch. Fe ddylid ystyried os oes cyfiawnhad dros gyflwyno dyletswydd i gynnal archwiliadau rhagweithiol yn y cyd-destun ehangach hwn.”⁵⁸

87. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod awdurdodau lleol eisoes yn gweithredu “well established risk assessment programmes which control the frequency of inspections of businesses – based on risk posed”. Eglurwyd bod y rhaglenni hyn wedi dosbarthu'r rhan fwyaf o safleoedd carafannau gwyliau fel "risg isel" ac ni fyddent yn cael eu harchwilio'n rheolaidd o dan y trefniadau presennol.⁵⁹

88. Roedd barn debyg gan Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, a Chyngor Sir Ddinbych am hyn.⁶⁰

89. Eglurodd Cyngor Sir Penfro ei fod yn archwilio safleoedd “in accordance with a locally devised risk rating scheme” er mwyn sicrhau “the careful and proportionate management of the authority’s finite resources”.⁶¹ Awgrymodd, er mwyn lleihau'r baich archwilio ar awdurdodau, y dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu "cynllun sgorio risg cenedlaethol" sy'n cynnwys categori "dim risg i'w harchwilio", neu fod yr archwiliadau yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd.⁶²

90. Ar fater adnoddau, mynegwyd pryder gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Sir Ddinbych, o ystyried y cyfyngiadau ariannol a'r gostyngiad yn nifer y swyddogion gorfodi, y byddai'n anodd i awdurdodau lleol fodloni'r gofyniad arfaethedig i archwilio safleoedd ac adolygu amodau trwyddedau.⁶³

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

91. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“[...] mae'n amlwg bod awdurdodau lleol gwahanol yn gweithredu mewn ffordd wahanol o ran archwilio safleoedd, a bod awdurdodau ar y cyfan yn cymryd risg i ystyriaeth wrth

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS91

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS106, HCS107, HCS84

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS88

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 195, 5 Mehefin 2014

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105, HCS84

benderfynu pa mor aml i archwilio pob safle unigol. Mae amlder yr archwilio yn amrywio o gynnal archwiliadau mewn ymateb i gwynion i archwiliadau blynyddol neu amlach.”⁶⁴

92. Dywed y bydd y rheidrwydd ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd “yn sicrhau y caiff archwiliadau rheolaidd eu cynnal yn fwy cyson ledled Cymru”.⁶⁵ Mae hefyd yn awgrymu, yn absenoldeb y gofyniad hwn bod “risg mai ychydig o archwiliadau, os o gwbl, a gynhelir, a bydd y duedd i ddefnyddio safleoedd carafannau gwyliau at ddibenion preswyl yn parhau”.⁶⁶

93. Wrth gydnabod y pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth am amlder arfaethedig yr archwiliadau safle, rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ymrwymiad i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynyddu'r cyfnod hwyaf rhwng archwiliadau, o dair blynedd i bum mlynedd. Nododd hefyd:

“The provisions already in the Bill that require the Welsh Government to consult industry bodies, and others, before commencing the duty to inspect will, of course, also help to ensure that a new inspection regime can be introduced sensitively and over an appropriate timescale.”⁶⁷

Ein barn ni

94. Ar y cyfan, ychydig o dystiolaeth a gawsom i awgrymu bod yna broblem systematig o fewn y diwydiant carafannau gwyliau mewn perthynas â chamddefnydd preswyl neu achosion mwy cyffredinol o dorri trwyddedau safle a fyddai'n cyfiawnhau'r gofynion arfaethedig i archwilio.

95. At hynny, rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol am y goblygiadau ymarferol ac ariannol o fodloni'r angen am archwilio safleoedd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Rydym yn cydnabod bwriad yr Aelod sy'n gyfrifol i gyflwyno gwelliant i gynnal archwiliadau safle yn llai aml, sef unwaith bob pum mlynedd yn hytrach nag unwaith bob tair blynedd. Er ein bod yn credu y byddai

⁶⁴ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 171

⁶⁵ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 172

⁶⁶ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 174

⁶⁷ Llythyr gan Darren Millar AC, 9 Gorffennaf 2014

hyn yn bodloni rhywfaint o'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth, nid ydym yn argyhoeddedig bod angen i awdurdodau lleol archwilio safleoedd. Yn lle hynny, rydym yn credu bod y dull presennol o archwilio, sy'n seiliedig ar risg, yn ddigonol ac y bydd yn galluogi awdurdodau i dargedu eu hymdrechion a'u hadnoddau yn fwy effeithiol.

Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r gofyniad ar awdurdodau lleol i archwilio safleoedd carafannau gwyliau o leiaf unwaith bob tair blynedd.

96. Er gwaethaf yr uchod, rydym yn croesawu'r awgrym yn y dystiolaeth y gellid datblygu cynllun sgorio risg cenedlaethol ar gyfer safleoedd carafannau gwyliau. Credwn y byddai hyn yn arwain at ddull mwy cyson o archwilio safleoedd ar draws awdurdodau lleol.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu cynllun sgorio risg cenedlaethol ar gyfer safleoedd gwyliau.

Person addas a phriodol

Cefndir

97. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol bod rheolwyr safleoedd yn bersonau addas a phriodol. Mae adran 34 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r holl faterion y mae'n eu hystyried yn briodol wrth benderfynu a yw person yn addas a phriodol.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

98. Amrywiol oedd y gefnogaeth ymysg yr ymatebwyr i'r asesiad arfaethedig i benderfynu a yw rheolwyr safleoedd yn bersonau addas a phriodol.

99. Roedd Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid cyflwyno prawf person addas a phriodol mewn egwyddor.⁶⁸

100. Er iddi fynegi ei chefnogaeth, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cwestiynu pam fod achosion o dorri'r gyfraith ar Safonau Masnach yn cael eu cynnwys yn benodol mewn materion y mae'n rhaid

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS56, HCS64, HCS105

i awdurdod eu hystyried wrth gynnal asesiad.⁶⁹ Codwyd y mater hwn hefyd gan awdurdodau lleol unigol, gan gynnwys Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Dywedodd ei fod yn aneglur sut y bydd y gofyniad hwn yn cael ei ddiffinio i sicrhau defnydd cyson ar draws Cymru.⁷⁰

101. Yn wahanol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nid oedd Cyngor Sir Penfro yn credu bod angen prawf person addas a phriodol. Dywedodd fel a ganlyn:

“While the authority fully appreciates the relevance of introducing a ‘fit and proper person’ test for residential caravan parks (under the Mobile Homes (Wales) Act 2013), having regard to the vulnerable nature of many residential occupations, we are not convinced that a similar test is needed for owners/managers of holiday parks, where caravans will generally be privately owned holiday units or otherwise let for short vacations. In the absence of a clear need, the introduction of such a test might be seen to impose an unnecessary burden and cost on the industry.”⁷¹

102. Er nad oedd y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau o reidrwydd yn llwyr o blaid y prawf person addas a phriodol,⁷² mynegodd bryder, oni fyddai prawf o'r fath, y byddai rheolwyr parciau preswyl a fyddai'n methu'r prawf cyfatebol “would seek to pursue parks operating in the holiday sector to the detriment of holiday caravan owners”.⁷³

103. Roedd y diwydiant parciau carafannau gwyliau a'r diwydiant twristiaeth ehangach yn bendant yn erbyn cyflwyno prawf person addas a phriodol.

104. Dadleuodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain nad oedd tystiolaeth i gyfiawnhau cyflwyno'r asesiad. Dywedodd fel a ganlyn:

“[...] staff changes within corporate businesses would necessitate frequent re-testing of the fitness of park managers, creating cost, unnecessary work for local authorities and

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS107

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS88

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 191, 11 Mehefin 2014

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

reducing the flexibility of corporate groups to deploy their management staff across parks within their groups.”⁷⁴

105. Eglurodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol bod perchnogion a gweithredwyr parciau carafannau gwyliau eisoes yn destun nifer o brofion gorfodol. Dywedodd y dylai'r rhain, ynghyd â'i Gyfundrefn Perchenogion Cartrefi Gwyliau mewn Parciau Gwyliau Cymeradwy, a luniwyd i osod safonau yn y diwydiant, gael eu derbyn gan awdurdodau lleol heb fod angen profion ychwanegol.⁷⁵

106. Roedd nifer o berchnogion a gweithredwyr safleoedd unigol, gan gynnwys Parc Carafannau Tree Tops, Parc Carafannau Fferm Pant Gwyn, a Hoburne Limited, yn cwestiynu'r angen am y prawf person addas a phriodol arfaethedig, ac i ba raddau yr oedd yn briodol ei gymhwyso i barciau carafannau gwyliau yn hytrach na busnesau eraill.⁷⁶

107. Er nad oedd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn gwrthwynebu cyflwyno prawf person addas a phriodol mewn egwyddor, cwestiynodd a oedd yr asesiad a ddarperir yn y Bil yn briodol ar gyfer y diwydiant parciau carafannau gwyliau. Dywedodd:

“Yr awgrym yw defnyddio'r un prawf â meini prawf ag a gyflwynir ar gyfer safleoedd cartrefi symudol preswyl. Mae safleoedd gwyliau'n fusnesau twristiaeth a byddai angen datblygu prawf a meini prawf gwahanol sy'n fwy priodol i'r diwydiant hwnnw”.⁷⁷

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

108. Wrth roi sylwadau ar y gofyniad i reolwr y safle fod yn "person addas a phriodol", dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“Mae Safleoedd Carafannau Gwyliau yn rhan bwysig o'r economi twristiaeth. Rwy'n creu eu bod at ei gilydd yn cael eu cynnal gan bobl onest a galluog. Nid oes gan weithredwyr da ddim i'w ofni o'r darpariaethau hyn.

“Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod hynny'n parhau a bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal. Dylai safleoedd carafannau gwyliau barhau i fod yn fannau o fwyndad a diogelwch i'r

⁷⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS98

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS35, HCS87, HCS3

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

teuluoedd a'r plant niferus sy'n eu defnyddio. Bydd cyflwyno Prawf Person Addas a Phriodol cadarn yn sicrhau bod safonau uchel yn parhau a bod yr awdurdodau'n canfod unrhyw weithredwyr diegwyddor.”⁷⁸

109. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y pryder a fynegwyd gan yr ymatebwyr bod cynnwys achosion o dorri cyfraith tai yn yr asesiad yn rhy benodol ac nad oedd yn briodol at ddibenion y diwydiant parciau carafannau gwyliau. Dywedodd y bydd hefyd yn ystyried diwygio'r Bil i gael gwared â'r cyfeiriad at y gyfraith tai a hefyd “to ensure that the test is focused on the key issues of fraud, dishonesty and equality, which I think are the essential protections appropriate to this sector”.⁷⁹

Ein barn ni

110. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr ynghylch cyflwyno prawf person addas a phriodol ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â rheoli safleoedd carafannau gwyliau. Rydym yn cydnabod bod darpariaeth debyg ar gael yn y ddeddfwriaeth tai bresennol ac mai'r sail ar gyfer y ddarpariaeth honno yw helpu i fynd i'r afael â gweithredwyr twyllodrus a gwella safonau o fewn y sector. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth gadarn i awgrymu bod yr un sail yn gymwys yn achos y diwydiant parciau carafannau gwyliau.

111. Nodwn fwriad yr Aelod sy'n gyfrifol i ddiwygio'r Bil i deilwra'r asesiad at ddibenion y diwydiant parciau carafannau gwyliau. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod asesiad o'r math hwn yn briodol nac yn angenrheidiol o fewn y cyd-destun hwn.

Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu'r gofyniad i reolwr safle fod yn berson addas a phriodol, ynghyd â'r darpariaethau cysylltiedig.

Rheolwyr interim

Cefndir

112. Mae adran 35 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol benodi rheolwr interim i safle carafannau gwyliau mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad yw amodau'r drwydded yn cael eu bodloni a lle nad oes person addas a phriodol yn rheoli'r safle.

⁷⁸ Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

⁷⁹ Llythyr gan Darren Millar AC, 9 Gorffennaf 2014

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

113. Ychydig o ymatebwyr a fynegodd sylwadau ar y cynnig i alluogi awdurdodau lleol i benodi rheolwyr interim. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn mynegi pryder am y cynnig, neu'n ei wrthwynebu'n uniongyrchol.

114. Roedd nifer o ymatebwyr o'r diwydiant carafannau gwyliau yn gwrthwynebu'r cynnig yn gryf. Credent ei fod yn amhriodol, yn annheg ac y gallai roi'r diwydiant o dan anfantais o gymharu â mathau eraill o lety i dwristiaid.

115. Pwysleisiodd Grŵp Haulfryn y byddai perfformiad gwael o ran rheoli yn dod i'r amlwg ac yn cael ei ddatrys yn ystod trefn arferol y busnes. Yr oedd yn teimlo'n gryf y dylai penderfyniadau ynghylch pwy ddylai reoli parciau carafannau gwyliau gael eu gwneud gan weithredwyr safleoedd. Dywedodd fel a ganlyn:

“Removal of the ability to decide who runs our business removes the ability for us to run the business. Whilst the local authority should be able to inform us of any concerns they may have we feel that this power is a step too far.”⁸⁰

116. Ar sail trafodaethau anffurfiol gyda'i fanc, cododd Parkdean Holidays bryder y gallai'r cynnig beryglu buddsoddiad oherwydd byddai'r potensial i roi rheolwr interim “nad yw'n atebol” yn lle rheolwr safle yn cael ei ystyried yn risg enfawr o ran busnes.⁸¹

117. Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y byddai'n anodd i awdurdodau benodi rheolwyr interim sy'n ddigon medrus a phrofiadol.⁸²

118. Ar y mater hwn, dywedodd Cyngor Sir Ddinbych fel a ganlyn:

“Unlike residential caravan sites that local authorities and social landlords may have relevant experience of managing, there is no precedent for the appointment of interim managers for holiday sites therefore further information and guidance on the

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS94

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 299, 11 Mehefin 2014

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 241-243, 5 Mehefin 2014

practical use of such powers would be required for local authorities.”⁸³

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

119. Credai'r Aelod sy'n gyfrifol y byddai'r darpariaethau mewn perthynas â rheolwyr interim yn rhai “y bydd defnyddwyr yn eu croesawu”.⁸⁴

120. Er nad oeddem wedi codi'r mater yn uniongyrchol gyda'r Aelod sy'n gyfrifol, rydym yn deall bod y darpariaethau hyn i raddau helaeth yn ailadrodd y rheini sydd yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, a bod darpariaethau tebyg ar gael mewn deddfwriaeth tai o ran tai amlbreswyliaeth, cynlluniau trwyddedu dethol, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Ein barn ni

121. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom nad oes cefnogaeth i'r cynnig i alluogi awdurdodau lleol i benodi rheolwyr interim. Rydym yn cydnabod bod darpariaeth debyg ar gael yn y ddeddfwriaeth tai. Fodd bynnag, prif ddiben y ddarpariaeth honno yw diogelu buddiannau preswylwyr a thenantiaid a allai, yn absenoldeb rheolwr interim, fod mewn perygl o golli eu cartref. Nid ydym yn credu bod y lefel hon o ymyrraeth yn briodol nac yn angenrheidiol yng nghyd-destun safleoedd carafannau gwyliau. Yn ogystal, ac o ystyried y dystiolaeth am yr anhawster posibl i benodi rheolwyr interim, credwn na fydd y ddarpariaeth yn gweithio'n ymarferol.

Argymhellwn fod y ddarpariaeth o ran penodi rheolwyr interim yn cael ei hepgor o'r Bil, a bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwnnw.

Pŵer i godi ffioedd

Cefndir

122. O dan Ddeddf 1960, ni all awdurdodau lleol godi ffioedd mewn perthynas â thrwyddedu safleoedd carafannau gwyliau. Mae'r Bil yn cyflwyno pwerau newydd i awdurdodau godi ffioedd, sy'n adlewyrchu'r rhai a ddarparwyd yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS84

⁸⁴ Llythyr gan Darren Millar AC, 29 Mai 2014

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

123. Roedd y rhai a gynrychiolai awdurdodau lleol yn croesawu'r pwerau i godi ffioedd; roeddynt yn credu y byddai'n eu helpu i gwrdd â'r costau o weinyddu a monitro'r drefn drwyddedu newydd.

124. Eglurodd Cyngor Sir Penfro, gan na allai awdurdodau lleol godi ffioedd trwyddedu ar hyn o bryd, bod y gost o fonitro ac archwilio safleoedd a chymryd camau gorfodi yn dod o goffrau'r wlad.⁸⁵

125. Mewn perthynas â'r uchod, nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

“I think that [a holiday caravan site licence] is the only licence that the local authority issues to which there is no fee attached, and a fee would assist with the resource implications of monitoring the sites.”⁸⁶

126. Er bod y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau, i bob golwg, yn derbyn y rhesymeg dros gyflwyno ffioedd, mynegodd bryder y byddai'r rhain, yn y pen draw, yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr.⁸⁷

127. Nododd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain, er na all awdurdodau lleol godi ffioedd am drwyddedau safle, eu bod yn cael refeniw o'r ardrethi busnes y mae'n ofynnol i barciau carafannau gwyliau eu talu.⁸⁸ Amcangyfrifir bod cyfraniad ardrethi busnes o barciau gwyliau a theithio yng Nghymru rhwng £17 miliwn a £24 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2013-14.⁸⁹

128. Dywedodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain y dylai'r ffioedd gael eu rheoli'n ofalus iawn. Roedd yn pwysleisio'r angen am sicrhau nad oedd perchnogion parciau da yn ariannu camau gorfodi yn erbyn perchnogion parciau gwael, ac y dylai'r ffioedd fod yn deg, gan gymryd maint a math y parc i ystyriaeth.⁹⁰

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 144, 5 Mehefin 2014

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 167, 5 Mehefin 2014

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 311, 11 Mehefin 2014

⁸⁹ CELG(4)-20-14 Papur 4, Llythyr gan Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 338, 11 Mehefin 2014

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

129. Yn y Memorandwm Esboniadol, nodir nad yw awdurdodau lleol “yn cael unrhyw gyfraniad uniongyrchol gan weithredwyr safle tuag at y costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau o dan Ddeddf 1960”.⁹¹

130. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

“Os na ddaw'r Bil hwn yn ddeddf, bydd y costau hyn yn dal i gael eu talu gan drethdalwyr cynghorau, ac yn dod o gyllid a roddir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bosibl bod anallu awdurdodau lleol i godi tâl yn rhwystro rhai awdurdodau rhag ymyrryd lle gwelir bod amodau wedi'u torri, neu'n wir rhag monitro'n rheolaidd.”⁹²

131. Wrth ymateb i'r awgrym y gallai trethi busnes a gesglir gan awdurdodau lleol gan berchnogion safleoedd gael eu defnyddio i dalu'r gost o fonitro cydymffurfiaeth, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

“[...] the same argument could be put in respect of licensed premises, gaming licences and other parts of the licensing regime—all of which charge a fee in relation to the inspection and enforcement regimes that they fund. I do not see why there should be an exception for this particular industry.”⁹³

Ein barn ni

132. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gan awdurdodau lleol i'r pŵer i godi ffioedd mewn perthynas â thrwyddedu. Rydym yn cydnabod mai trwyddedu meysydd carafannau gwyliau yw'r unig gynllun trwyddedu a weinyddir gan yr awdurdodau na allant godi ffioedd amdano, a chredwn y dylid mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn. Rydym yn cydnabod y bydd y refeniw a geir o ffioedd trwyddedu yn helpu'r awdurdodau i gwrdd â'r costau gweithredu a'r costau parhaus o fonitro a yw safleoedd yn cydymffurfio ag amodau eu trwyddedau.

133. Credwn ei bod yn anochel y bydd y diwydiant parciau carafannau gwyliau yn ceisio adennill y gost sy'n gysylltiedig â thrwyddedu drwy godi ffioedd uwch ar berchnogion carafannau. Felly, bydd yn bwysig sicrhau bod y polisiau ynghylch ffioedd yn rhesymol ac yn dryloyw. At

⁹¹ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 173

⁹² *ibid*

⁹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 81, 25 Mehefin 2014

hynny, ni ddylai'r polisïau ynghylch ffioedd gael eu defnyddio i gynhyrchu refeniw y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol gan awdurdod i dalu am weinyddu a monitro'r cynllun trwyddedu.

134. O ystyried yr amrywiaeth eang yn nifer a maint safleoedd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol ac o'u mewn, rydym yn cydnabod mai'r awdurdodau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i bennu eu polisi ffioedd, ac rydym yn fodlon â'r cynnig hwn. Er gwaethaf hyn, credwn y byddai'r awdurdodau yn elwa ar arweiniad ar godi ffioedd er mwyn sicrhau y caiff y pŵer arfaethedig ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithiol.

Argymhellwn y dylai'r Gweinidog arfer ei bŵer o dan adran 65 i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar godi ffioedd mewn perthynas â thrwyddedu safleoedd carafannau gwyliau.

5. Rhan 3 - Y Prawf Preswyllo

Cefndir

135. Mae Rhan 3 yn cyflwyno gofynion newydd er mwyn sicrhau na fydd unrhyw berson yn byw mewn carafán wyliau fel ei gartref parhaol neu ei brif gartref. Bydd angen i'r rhai sy'n byw mewn carafán wyliau am chwe wythnos olynol neu ragor brofi nad ydynt yn defnyddio'r garafán wyliau fel eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa drwy ddarparu o leiaf ddwy ddogfen o blith y rhai a restrir yn Atodlen 2. Rhaid i berchnogion safleoedd gynnal profion preswyllo pellach o leiaf unwaith y flwyddyn.

136. Rhaid i berchnogion safleoedd roi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw rai a fethodd y prawf preswyllo cyn gynted ag y bo modd a chadw'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn perthynas â'r prawf, a sicrhau ei fod ar gael i'r awdurdod lleol ar bob adeg resymol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio'r dystiolaeth honno o leiaf unwaith y flwyddyn.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

137. Nid oedd llawer o gefnogaeth yn y dystiolaeth i gyflwyno profion preswyl gorfodol a'r darpariaethau cysylltiedig. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn amau a oedd angen profion o'r fath, neu a oeddynt yn briodol at y diben o fynd i'r afael â chamddefnyddio carafannau gwyliau at ddibenion preswyl.

138. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r diwydiant carafannau gwyliau yn pryderu fod y gofyniad i gynnal profion preswyl ac i ail-brofi'n flynyddol yn feichus a chostus. Hefyd, roedd cynrychiolwyr y diwydiant yn pryderu y gallai cyflwyno'r prawf niweidio'r berthynas rhwng perchnogion safleoedd a pherchnogion carafannau.

139. Roedd consensws cyffredinol y byddai'r prawf preswyllo a ddarperir yn Atodlen 2 yn aneffeithiol.

140. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“[...] the power to control the use of holiday sites as residential sites exists within planning legislation and this should remain the primary legislation for controlling site use. Additional measures should not be required, rather additional guidance

for local planning authorities in respect of residency tests etc. should be considered.”⁹⁴

141. Awgrymodd y gellid mynd i'r afael â chamddefnydd preswyl fel a ganlyn: “through the prevention of local housing allowance claims, bus pass applications and GP registrations for persons with a holiday park address rather than the measures contained in the Bill”. Dywedodd y dylai'r rhain a mesurau posibl eraill gael eu harchwilio yn llawn fel dewisiadau amgen i'r prawf preswyl.⁹⁵

142. Wrth roi sylwadau ar yr uchod, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ystyried cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch cyfyngu ar allu'r rhai sy'n byw yn anghyfreithlon mewn carafannau gwyliau i gael gwasanaethau lleol a budd-daliadau llesiant.⁹⁶

143. Roedd sawl awdurdod lleol, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bro Morgannwg, yn cwestiynu'r angen am archwiliadau blynyddol o dystiolaeth a gedwir gan berchnogion safleoedd ynghylch y profion preswyl. Roeddynt yn awgrymu, ar safleoedd a reolir yn dda lle mae yno systemau cadarn i fonitro camddefnydd preswyl, y gellid cynnal gwiriadau fel rhan o'r archwiliadau arferol ar sail risg. Gallai hyn gwtogi ar gostau'r awdurdod a'r diwydiant.⁹⁷

144. Er bod y Gweinidog yn cydnabod y bwriad sydd wrth wraidd cyflwyno'r prawf preswyl, cwestiynodd ai'r Bil yw'r dull gorau o gyrraedd y nod hwn. Awgrymodd y byddai'r gofyniad i gynnal profion preswyl yn gosod “baich ychwanegol ar fusnesau” ac nid oedd yn sicr sut y byddai'r prawf hwn yn mynd i'r afael â phryder yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil am gamddefnydd preswyl o safleoedd carafannau gwyliau.⁹⁸

145. Mynegodd cynrychiolwyr o'r diwydiant bryder difrifol ynghylch goblygiadau ymarferol ac ariannol y gofyniad i gynnal profion preswyl i berchnogion a gweithredwyr safleoedd.

146. Mynegodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain bryder ynghylch cywirdeb yr amcangyfrif o'r gost yn y Memorandwm Esboniadol i berchnogion safleoedd gynnal profion

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

⁹⁵ Ibid

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 11 Mehefin 2014

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS88, HCS106

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

preswyllo.⁹⁹ Roedd hyn yn seiliedig ar amcangyfrif arall a ddarparwyd gan Park Dean Holiday Parks a oedd yn sylweddol uwch na'r ffigur yn y Memorandwm Esboniadol.¹⁰⁰

147. I'r gwrthwyneb, roedd Whitehouse Leisure Park a'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru o blaid y prawf preswyllo.¹⁰¹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

148. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol nad oedd y prawf preswyllo yn feichus. Esboniodd fod y dystiolaeth sydd i'w darparu i fodloni'r prawf, a nodir yn Atodlen 2, yn seiliedig ar hyn sy'n ofynnol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn dangos meddiannaeth breswyl.¹⁰²

149. Awgrymodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai ail-brofi meddianwyr yn flynyddol ac archwilio'r dogfennau a ddarperir yn galluogi awdurdodau i wneud archwiliadau i ddilysu dogfennau lle bo angen, a fyddai'n helpu i sicrhau bod y prawf yn effeithiol.¹⁰³

150. Mewn tystiolaeth ddiweddarach, cydnabu'r Aelod sy'n gyfrifol y pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth am y prawf preswyllo. Esboniodd ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gael gwared ar y prawf preswyllo gorfodol ac i'w ddisodli â phŵer dewisol i awdurdodau lleol gynnal profion preswyllo lle mae ganddynt amheuaeth bod camddefnydd preswyl yn digwydd ar y safle. Dywedodd:

“[this] will be in keeping with the risk-based approach to inspection elsewhere in the Bill and ensure that particularly local and regional problems can be dealt with effectively while not requiring an intrusive approach in areas where permanent occupation has not been identified as a problem.”¹⁰⁴

Our view

151. Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am Ran 3 o'r Bil, yn enwedig y bwriad i gyflwyno profion preswyllo gorfodol fel un o amodau trwydded safle, y bwriad i gynnal profion blynyddol ar

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

¹⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS38, HCS79

¹⁰² Cofnod y Trafodion, paragraff 151-152, 7 Mai 2014

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 154, 7 Mai 2014

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 25 Mehefin 2014

feddianwyr carafannau, a'r archwiliad blynyddol gan awdurdodau lleol o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r profion preswyllo.

152. Credwn y bydd profion preswyllo gorfodol yn rhoi baich diangen ar y diwydiant carafannau gwyliau, ac y gallai'r profion rheolaidd y bydd angen i berchnogion safleoedd eu gwneud ar feddianwyr carafannau arwain at ddiffyg ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr, ac yn y pen draw niweidio'r berthynas rhyngdynt.

153. Rydym yn cwestiynu a yw'r prawf preswyllo yn Atodlen 2 yn ddigon cadarn i gyrraedd y nod o adnabod meddianwyr carafannau sy'n defnyddio'u carafán wyliau fel unig breswylfa neu brif breswylfa. Credwn y gellid darparu'r dogfennau sy'n ofynnol i fodloni'r prawf arfaethedig heb fod gan unigolyn brif gartref yn rhywle arall, ac y byddai hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y prawf.

154. Yn fwyaf arwyddocaol ac fel y soniwyd eisoes, roedd diffyg tystiolaeth i gefnogi'r honiad bod cynnydd mewn defnyddio carafannau gwyliau fel preswylfeydd parhaol. Gan nad oedd tystiolaeth o'r fath, ni welwn fod rheswm dros gyflwyno profion preswyllo gorfodol. Credwn y byddai'n annoeth cyflwyno mesurau deddfwriaethol ychwanegol yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth gadarn bod angen amdanynt.

155. Credwn fod cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau, gyda thelerau ymhlyg na ddylai carafannau gwyliau gael eu defnyddio fel prif gartref neu unig gartref, yn ffordd fwy priodol o fynd i'r afael â chamddefnydd preswyl posibl.

156. Rydym yn cydnabod bwriad yr Aelod sy'n gyfrifol i ddiwygio'r Bil i gael gwared ar y prawf preswyllo gorfodol a'i ddisodli gyda phŵer sy'n galluogi awdurdodau lleol i fynnu profion mewn achosion lle maent yn amau y caiff carafannau gwyliau eu camddefnyddio at ddibenion preswyl. Er ein bod yn cefnogi hyn mewn egwyddor, byddem yn croesawu rhagor o fanylion.

Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i hepgor y prawf preswyllo gorfodol fel un o amodau trwydded safle, ynghyd â'r holl ddarpariaethau cysylltiedig. Argymhellwn hefyd fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn rhoi rhagor o fanylion fel rhan o ddadl Cyfnod 1 ynghylch sut y mae'n bwriadu diwygio Rhan 3 o'r Bil i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth.

6. Rhan 4 - Cytundebau Carafannau Gwyliau

Cefndir

157. Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer cytundebau carafannau gwyliau gorfodol. Bwriad y rhain yw rhoi amddiffyniad ychwanegol i feddianwyr a pherchnogion carafannau gwyliau a pherchnogion safleoedd drwy bennu manylion cytundebau a'r telerau ymhlyg ynddynt, a fyddai'n gymwys i bob cytundeb ni waeth beth oedd y telerau datganedig. Mae'r telerau ymhlyg wedi'u nodi yn adran 56 ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion safleoedd:

- ymgynghori â pherchnogion carafannau am faterion sy'n ymwneud â'r safle sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar feddianwyr; a
- rhoi copïau o filiau cyfleustodau a'r bil ardrethi annomestig i feddianwyr, pan wneir cais rhesymol am hynny gan feddianwyr.

158. Cyn gwneud cytundeb carafán wyliau, rhaid i berchennog y safle roi datganiad ysgrifenedig i'r meddiannydd arfaethedig sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am y cytundeb arfaethedig. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gael ei roi heb fod yn hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y gwneir y cytundeb, oni chytunir yn ysgrifenedig ar gyfnod byrrach. Ni ellir byrhau'r cyfnod os yw'r garafán wyliau yn cael ei gwerthu gan berchennog y safle i'r meddiannydd arfaethedig.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

159. Roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau gorfodol. Esboniodd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain a'r Cyngor Carafannau Cenedlaethol, bod y gofyniad am gytundebau ysgrifenedig rhwng perchnogion safleoedd a pherchnogion carafannau yn adlewyrchu'r cytundeb trwydded enghreifftiol sydd gan y diwydiant. Cafodd y cytundeb trwydded enghreifftiol ei greu a'i fabwysiadu gan y diwydiant ar ôl i'r Swyddfa Masnachu Teg gyhoeddi canllawiau ynghylch telerau annheg mewn cytundebau carafannau gwyliau.

160. Wrth groesawu'r cynigion ar gyfer cytundebau gorfodol, esboniodd Cyngor Sir Penfro bod "nifer" o safleoedd yn ei ardal heb fabwysiadu arferion gorau'r diwydiant ar ddarparu cytundebau

ysgrifenedig a dywedodd: “a statutory obligation will ensure consistency across the sector, make enforcement easier and ensure protection for consumers”.¹⁰⁵

161. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau fod y rhan fwyaf o'r cwynion a ddaw i law oddi wrth berchnogion carafannau yn tueddu i fod yn broblemau sy'n seiliedig ar ddiffyg cytundeb ysgrifenedig¹⁰⁶ ac y gallent, yn niffyg cytundeb o'r fath, fod mewn sefyllfa fregus.¹⁰⁷

162. Er bod y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau yn cydnabod bod gweithredwyr safleoedd carafannau gwyliau mawr wedi mabwysiadu'r cytundeb trwydded enghreifftiol sydd gan y diwydiant, dywedodd fod y rhan fwyaf o barciau'r DU, gan gynnwys parciau gwyliau Cymru, yn safleoedd bach, teuluol gydag amodau a thelerau a etifeddwyd. Mewn rhai o'r manau hynny “sales and obligations are dealt with either verbally or by annual agreements”.¹⁰⁸

163. Roedd y Gweinidog Tai ac Adfywio o blaid cytundebau carafannau gwyliau. Roedd yn cydnabod bod darparu cytundebau ysgrifenedig “eisoes yn cael ei weld fel arfer gorau yn y diwydiant”, a chredai y dylai hyn “ddod y peth arferol”.¹⁰⁹

164. Er bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr o blaid gwneud cytundebau ysgrifenedig yn statudol, roedd lleiafrif o'r perchnogion a/neu weithredwyr safleoedd yn credu nad oedd angen gwneud hyn.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

165. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol “er bod y diwydiant yn argymhell hynny fel un o'i arferion gorau, nid oes rheidrwydd cyfreithiol ar berchennog carafán wyliau a pherchennog safle carafannau gwyliau i lunio cytundeb ysgrifenedig”.¹¹⁰

166. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae cytundeb trwydded enghreifftiol y diwydiant yn nodi'n benodol nad yw'r garafán i'w defnyddio fel preswylfa barhaol, ac y gall perchennog safle ddod â'r

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS88

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 167, 11 Mehefin 2014

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 11 Mehefin 2014

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

¹¹⁰ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 29

cytundeb i ben os caiff yr amod hwn ei dorri. Fodd bynnag, dewis gwirfoddol yw mabwysiadu'r cytundeb enghreifftiol, ac felly “nid yw wedi'i fabwysiadu gan y diwydiant drwyddo draw. Nid oes rhaid i safleoedd ddefnyddio'r cytundeb, hyd yn oed pan fo perchnogion safleoedd yn aelodau o'r cyrff a'i datblygodd o fewn y diwydiant”.¹¹¹

Ein barn ni

167. Rydym yn cydnabod gwerth cytundebau ysgrifenedig i berchnogion safleoedd a pherchnogion carafannau. Clywsom dystiolaeth gan berchnogion carafannau a'u cynrychiolwyr sy'n awgrymu, yn absenoldeb cytundebau ysgrifenedig, mai ychydig o ddiogelwch sydd ganddynt, a'u bod felly mewn sefyllfa fregus. Mae'n dilyn bod perchnogion nad oes ganddynt gytundeb ysgrifenedig mewn mwy o berygl o fod yn agored i arferion gwael ac mae'n debygol mai ychydig o gyfle a fydd ganddynt i ddatrys pethau.

168. Rydym yn cydnabod bod y cytundeb trwydded enghreifftiol a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain yn cael ei ddefnyddio mewn ambell ran o'r diwydiant carafannau gwyliau. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhaid mabwysiadu'r cytundeb hwn cyn y gellir ymaelodi â Chymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain. Fodd bynnag, o gofio bod cyfran sylweddol o'r diwydiant yn gweithredu y tu allan i'r gymdeithas fasnach, ni ellir dibynnu ar hyn i sicrhau y defnyddir cytundebau yn gyson ar draws y diwydiant. Credwn mai cyflwyno cytundebau carafannau gwyliau statudol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau'r cysondeb hwn.

Y gofyniad i roi datganiad ysgrifenedig ddim hwyrach na 28 diwrnod cyn y dyddiad y gwneir y cytundeb carafannau gwyliau.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

169. Roedd y diwydiant yn gwrthwynebu'n chwyn y gofyniad i berchnogion safleoedd roi datganiadau ysgrifenedig i feddianwyr arfaethedig 28 diwrnod cyn i'r cytundeb carafannau gwyliau gael ei lofnodi.

170. Roedd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol yn cydnabod yr angen am sicrhau bod defnyddwyr yn cael digon o amser i ystyried eu

¹¹¹ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 31

buddsoddiad posibl, a'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar gartref gwyliau.¹¹² Fodd bynnag, mynegodd bryder y byddai'r gofyniad yn cael effaith andwyol ar barciau gwyliau a'u gallu i gystadlu'n effeithiol.¹¹³

171. Dywedodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol bod llawer o gwsmeriaid yn awyddus i gwblhau'r pryniant ar y cyfle cyntaf ac y byddai'r cyfnod gorfodol o 28 diwrnod, felly, yn llesteirio'r broses ac yn peryglu'r gwerthiant yn llwyr.¹¹⁴

172. Mewn perthynas â'r uchod, esboniodd Whitehouse Leisure Park bod cwsmeriaid, wrth brynu carafán wyliau, yn aml iawn yn ymweld â'r parc, yn prynu carafán ac yn disgwyl gallu ei defnyddio o fewn dyddiau.¹¹⁵

173. Dywedodd Parkdean bod y gofyniad yn fwy beichus na'r ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013,¹¹⁶ a oedd yn darparu y gellid cwtogi'r cyfnod o 28 diwrnod drwy gytundeb.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

174. Wrth ymateb i bryderon y diwydiant, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil:

“I believe that the requirement for a written statement of particulars, provided in advance, remains an important safeguard for caravan occupiers. However, it was not part of my intention that this should become a way of frustrating site owners and occupiers from reaching earlier agreement where they wished.”¹¹⁷

175. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“[...] should the Bill proceed to Stage 2, I intend to bring forward an amendment to delete the final part of S55(3) so that the 28 day period can be reduced by agreement in all circumstances.”¹¹⁸

¹¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS98

¹¹³ Ibid

¹¹⁴ Ibid

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS38

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS99

¹¹⁷ Llythyr gan Darren Millar AC, 9 Gorffennaf 2014

¹¹⁸ Ibid

Ein barn ni

176. Rydym yn rhannu'r pryderon a gododd y diwydiant am yr effaith bosibl ar werthu carafannau gwyliau yn sgil gweithredu'r gofyniad am gyfnod o 28 diwrnod rhwng rhoi datganiad a gwneud cytundeb carafannau gwyliau. Rydym yn cydnabod bod y Bil yn darparu y gellir cwtogi'r cyfnod o 28 diwrnod drwy gydsyniad ysgrifenedig y meddiannydd arfaethedig, ond ni fyddai hyn yn gymwys pan fydd y garafán wyliau yn cael ei gwerthu gan berchennog y safle. Credwn y gallai hyn arwain at oedi annymunol yn y broses brynu, atal darpar brynwyr a rhoi perchnogion safleoedd yng Nghymru dan anfantais.

177. Nodwn fod Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn cynnwys darpariaeth fel y gellir lleihau'r cyfnod o 28 diwrnod gyda chydsyniad ysgrifenedig y meddiannydd arfaethedig, ni waeth gan bwy y mae'n prynu'r garafán. Credwn y byddai hyn yn helpu i liniaru pryderon y diwydiant, ond ar yr un pryd parhau i ddarparu'r diogelwch angenrheidiol i ddefnyddwyr.

178. Croesawn ymrwymiad yr Aelod sy'n gyfrifol i ddiwygio adran 55(3) o'r Bil.

Argymhellwn fod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel y gellir lleihau'r cyfnod o 28 diwrnod ym mhob sefyllfa cyn y caiff cytundeb carafannau gwyliau ei wneud, gan gynnwys achos lle mae'r perchennog yn bwriadu gwerthu'r garafán i'r meddiannydd arfaethedig.

Gofyniad i ymgynghori ynghylch materion sy'n ymwneud â safle

Tystiolaeth gan randdeiliaid

179. Er ei fod yn gyffredinol o blaid cytundebau ysgrifenedig, mynegwyd pryder gan y diwydiant parciau gwyliau am y gofyniad ar berchnogion safleoedd i ymgynghori â pherchnogion carafannau ynghylch materion sy'n ymwneud â'r safle. Ar y mater hwn, dywedodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol:

“In addition to adding further costs and administrative burden to the operation, lengthy and complex consultations would

impact on their ability to evolve and develop their businesses at the speed required by modern business.”¹¹⁹

180. Mynegodd bryder y gallai gorfod ymgynghori â pherchnogion carafannau ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i safleoedd, yn enwedig yn ystod y camau cynnar o ddatblygu cynigion, godi disgwyliadau na fyddant efallai'n cael eu bodloni.

181. Ar y llaw arall, awgrymodd Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain, pan fyddai perchnogion carafannau yn ymateb yn negyddol i newidiadau arfaethedig, “[it] must not then be a damper on investment or the flexibility needed for tourism businesses in what is a fast-moving tourism economy”.¹²⁰

182. Mynegodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol bryder y gallai drafftio'r gofyniad, a oedd yn rhy eang yn ei farn ef, arwain at ymgyfreitha, yn enwedig gan fod y telerau a ddefnyddir heb eu diffinio i raddau helaeth ac felly'n agored i'w dehongli gan berchnogion safleoedd a charafannau fel ei gilydd.

183. Yn olaf, pwysleisiodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol ei fod yn sefydliad sy'n ymwneud â defnyddwyr a bod perchnogion parciau cyfrifol eisoes yn trafod â'u cwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â safleoedd.

184. Dywedodd Whitehouse Leisure Park rywbeth tebyg:

“It is not in the interest of any park owner to make changes to their business that would be unattractive to their customers and customer expectations are the driver for nearly all park developments, both physically and operationally. Some credit should be given to our industry in this regard and to our ability to respond to customer needs without such formal processes.”¹²¹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

185. Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol bod y gofyniad ar berchnogion safleoedd i ymgynghori wedi'i gynnwys "o ganlyniad uniongyrchol"¹²² i'r ymatebion a gafodd i'w ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil.

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS98

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 394, 11 Mehefin 2014

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS38

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 25 Mehefin 2014

Ychwanegodd nad oedd y Bil yn pennu¹²³ sut y dylid cynnal yr ymgynghoriad.

Ein barn ni

186. Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd gan y diwydiant parciau carafannau gwyliau am y goblygiadau ymarferol ac ariannol i berchnogion safleoedd fodloni'r gofynion i ymgynghori â meddianwyr ar faterion sy'n ymwneud â'r safle. Rydym yn cydnabod mai'r defnyddwyr sy'n gyrru'r diwydiant yn bennaf, a'i bod o fudd i berchnogion safleoedd ymgysylltu â'u cwsmeriaid ynghylch newidiadau a allai effeithio arnynt. Rydym hefyd yn cydnabod yr awgrym y gallai'r gofyniad, er yn anfwriadol, lesteirio datblygiadau. Gan gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth, nid ydym yn credu bod y gofyniad statudol i ymgynghori yn angenrheidiol nac yn ddymunol yn y cyd-destun hwn.

Argymhellwn fod y gofyniad ar berchnogion safleoedd i ymgynghori â meddianwyr ynghylch materion sy'n ymwneud â safleoedd yn cael ei hepgor, a bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwnnw.

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 25 Mehefin 2014

7. Rhan 5 - Amddiffyn rhag aflonyddu

Cefndir

187. Mae Rhan 5 o'r Bil yn amddiffyn pob meddiannydd carafán wyliau rhag aflonyddu, ni waeth am ba hyd y mae'n gosod neu'n meddiannu carafán wyliau ar safle. Ceir darpariaethau tebyg yn Neddf Cartrefi Symudol 2013 (Cymru) o ran amddiffyn meddianwyr parciau preswyl rhag troi allan ac aflonyddu.

188. Mae adran 60 yn darparu ei bod yn drosedd aflonyddu ar feddianwyr carafannau gwyliau. Mae'n nodi ystyr "aflonyddu", sy'n cynnwys amddifadu meddianwyr o'u defnydd o garafán wyliau, ac ymyrryd â llonyddwch neu gysur meddianwyr gyda'r bwriad o'u hannog i roi'r gorau i feddiannu'r garafán wyliau.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

189. Ychydig o ymatebwyr a fynegodd sylwadau manwl am y darpariaethau amddiffyn rhag aflonyddu. Roedd y rhai a ymatebodd wedi cynnig safbwyntiau cyferbyniol ynghylch a oedd y darpariaethau yn angenrheidiol ac yn briodol.

190. Roedd Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Dinas a Sir Abertawe, a Chyngor Sir Ddinbych yn ochelgar ynghylch cynnwys y darpariaethau. Dywedwyd:

“[...] there are fundamental differences between residential home and holiday home sites and the vast majority of occupiers of these types of sites. The application of ‘housing’ controls to the holiday industry may not be proportionate or necessary to regulate the issue of mismanagement of a small part of the holiday site industry. In local authorities’ experience, it is unclear if there is evidence for the controls outlined in Part 5.”¹²⁴

191. Yn yr un modd, pwysleisiodd Parkdean bod darpariaethau tebyg yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a gynlluniwyd i amddiffyn preswylwyr agored i niwed sy'n byw mewn cartrefi ar barciau¹²⁵ ac nad

¹²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS106

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS99

oeddynt yn gymwys nac yn angenrheidiol yng nghyd-destun meddianwyr carafannau gwyliau. Dywedodd hefyd:

“The existing criminal and civil law provides sufficient protection to holiday home owners and holiday makers.”¹²⁶

192. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Hobourne Ltd.

193. I'r gwrthwyneb i'r uchod, roedd y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau yn canmol cynnwys Rhan 5 ac yn credu bod “specific instrument for the protection of holiday caravan owners from harassment and aggressive eviction behaviour is overdue”.¹²⁷

194. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y Cyngor Carafannau Cenedlaethol a'r Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain yn cefnogi'r darpariaethau, a dywedodd y Gymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain: “the industry wholeheartedly embraces protections against harassment for park customers”.¹²⁸

195. Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio y byddai'n cefnogi unrhyw fesur sy'n ceisio amddiffyn pobl rhag aflonyddu.¹²⁹ Fodd bynnag, nid oedd yn argyhoeddedig bod y darpariaethau yn ychwanegu at yr amddiffyniad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth bresennol.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

196. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai'r darpariaethau amddiffyn rhag aflonyddu “will strengthen the confidence of consumers to come to Wales, knowing that they would have these additional protections in place from any potential harassment that might occur”.¹³⁰

197. Roedd yn cydnabod bod aflonyddu eisoes yn drosedd a chyfaddefodd nad oedd yn sylweddoli ei bod yn broblem sylweddol ac eang¹³¹ ar safleoedd carafannau gwyliau. Fodd bynnag, wrth gyfeirio at y darpariaethau amddiffyn rhag aflonyddu yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, dywedodd na allai weld unrhyw reswm i beidio â

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS99

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS13

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

¹³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 25 Mehefin 2014

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 25 Mehefin 2014

chyflwyno rhai darpariaethau amddiffyn rhag aflonyddu ar barciau gwyliau.¹³²

Ein barn ni

198. Rydym yn cydnabod y bydd y ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag aflonyddu yn rhoi rhyw gymaint o amddiffyniad i berchnogion carafannau gwyliau lle bo angen. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod y cynigion yn Rhan 5 yn rhoi amddiffyniad ar gyfer meddianwyr carafannau gwyliau heb iddynt orfod dibynnu ar y ddeddfwriaeth bresennol a anelwyd at fynd i'r afael ag aflonyddu yn yr ystyr ehangach. Fel y cyfryw, rydym yn fodlon â Rhan 5 o'r Bil.

¹³² Cofnod y Trafodion, paragraff 179, 25 Mehefin 2014

8. Rhan 6 - Atodol a Chyffredinol

Cefndir

199. Mae Rhan 6 o'r Bil yn nodi nifer o ddarpariaethau atodol a chyffredinol, gan gynnwys y rhai mewn perthynas â gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, canllawiau gan Weinidogion Cymru, a gorchmynion a rheoliadau o dan y Ddeddf.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

200. Ychydig o'r ymatebwyr a roddodd dystiolaeth ynghylch Rhan 6. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn fodlon â'r darpariaethau ar y cyfan.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

201. O ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, ni holwyd yr Aelod sy'n gyfrifol ynghylch Rhan 6 o'r Bil.

Ein barn ni

202. Nodwn fod yr ymatebwyr yn fodlon â Rhan 6 o'r Bil.

9. Canlyniadau anfwriadol

Digartrefedd

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

203. Roedd consensws cyffredinol ymysg yr ymatebwyr y gallai'r Bil o bosibl wneud nifer sylweddol o aelwydydd yn ddigartref, a rhoi baich ychwanegol ar awdurdodau lleol.

204. Mynegodd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Dinas Abertawe bryder nad oedd effaith bosibl y Bil ar ddigartrefedd wedi'i lwyr ystyried. Soniwyd bod carafannau gwyliau yn bodloni'r angen am opsiynau tai cost isel, a dywedwyd:

“Removing this option from the housing market needs to be well planned to ensure that the households made homeless are effectively managed and does not generate a problem for local authority homelessness services.”¹³³

205. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

206. Awgrymodd yr Athro Fothergill pe byddai canfyddiadau ei waith ymchwil ar y defnydd o garafannau gwyliau at ddibenion preswyl yn cael eu cymhwyso i Gymru mai effaith gorfodi'r cynigion yn y Bil yn llym fyddai:

“Make homeless the households who currently live in holiday caravans – an estimated 7,500 people in Wales.

“Victimise, in the main, an older retired group that would mostly be unable to re-access owner-occupation given their low income and the disparity between the capital value of their caravan and house prices.”¹³⁴

207. Cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd bryder am effaith y Bil ar "feddianwyr agored i niwed" a phwysleisiodd yr angen am sicrhau bod amddiffyniad priodol yn cael ei roi i bob unigolyn fel y gallant wneud darpariaeth amgen am lety pan fyddant yn wynebu cael

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS106

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS1

eu troi allan.¹³⁵ Awgrymodd y gallai fod gan awdurdodau ddyletswydd statudol o ran digartrefedd yn achos rhai meddianwyr sy'n wynebu cael eu troi allan, ac y byddai cyflwyno cyfnod rhybudd gofynnol yn galluogi'r gwasanaethau cyngor ar dai i weithio gydag unigolion mewn da bryd.¹³⁶

208. Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio rywbeth tebyg sef y "byddai angen i bob un a fethodd y prawf preswyllo gael ei ailgartrefu"¹³⁷ ac y gallai hyn, mewn rhai ardaloedd, "osod baich ychwanegol sylweddol ar yr awdurdod ar adeg pan fo cyllidebau yn dynn".¹³⁸

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

209. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, "...ni ddylai nifer fawr o bobl fod yn ddigartref o ganlyniad i'r Bil yn unig".¹³⁹ Er ei fod yn cydnabod y bydd angen i bobl sy'n byw'n barhaol mewn carafannau gwyliau "ddod o hyd i lety arall" o ganlyniad i'r Bil hwn,¹⁴⁰ dywedir hefyd bod "adnoddau ariannol gan lawer o'r meddianwyr hyn, ac felly bydd modd iddynt wneud trefniadau amgen ar gyfer eu llety heb gymorth gan yr awdurdod lleol".¹⁴¹

210. Wrth roi sylwadau ar effaith bosibl y Bil ar ddigartrefedd, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"...bydd digon o amser i'r rhai sy'n byw mewn carafannau gwyliau i baratoi a gwneud trefniadau llety amgen cyn i'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ddod i rym."

211. Cyfeiriodd hefyd at y "cynnydd yn y pwyslais y mae awdurdodau lleol yn ei roi ar atal digartrefedd" a dywedodd y bydd "Bil Tai (Cymru) yn rhoi gwaith atal digartrefedd ar sail statudol".

212. Credai ei bod yn annhebygol y byddai'r rhai sy'n mynd yn ddigartref o ganlyniad i'r Bil yn dod o dan y ddyletswydd ddigartrefedd statudol os ydynt yn byw'n fwriadol ar safleoedd carafannau gwyliau

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

¹³⁶ Ibid

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

¹³⁸ Ibid

¹³⁹ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 235

¹⁴⁰ Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru), Memorandwm Esboniadol, paragraff 94

¹⁴¹ Ibid

oherwydd byddai awdurdodau lleol yn ystyried eu bod yn ddigartref yn fwriadol.

213. Ar fater cysylltiedig, y cyngor a gafwyd gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cynulliad oedd, mewn achosion lle bydd safle yn dod heb drwydded, os gall perchennog carafán gael mynediad i'r safle a symud y garafán i safle gwahanol, byddai gan yr awdurdod lleol rywfaint o gyfiawnhad dros honni nad yw'r unigolyn yn ddigartref.

Ein barn ni

214. Rydym yn cydnabod y pryder a godwyd yn y dystiolaeth am effaith bosibl y Bil ar ddigartrefedd. Mae'n bosibl y gallai camau pellach i wahardd pobl rhag defnyddio carafannau gwyliau fel preswylfa olygu y byddai rhai aelwydydd heb gartref parhaol, ac mae hynny'n peri pryder i ni. Fel y nodwyd eisoes, ni wyddys i ba raddau y caiff carafannau gwyliau eu camdefnyddio at ddibenion preswyl. Mae'n dilyn bod effaith bosibl y Bil ar ddigartrefedd yn arbennig o anodd eu mesur. Fodd bynnag, credwn y byddai unrhyw gynnydd mewn digartrefedd o ganlyniad i'r Bil yn ganlyniad annymunol iawn.

215. Rydym yn cydnabod bod cael gwared ar y prawf preswyl gorfodol yn debygol o leihau effaith uniongyrchol y Bil ar ddigartrefedd. Bydd yr effaith gyffredinol, yn y tymor hirach, yn dibynnu ar y graddau y mae awdurdodau lleol yn mynd ati i orfodi amodau trwyddedau safle sy'n cyfyngu ar feddiannaeth at ddibenion preswyl.

216. Gobeithiwn y bydd y ffocws cynyddol ar atal a lliniaru digartrefedd yn y Bil Tai (Cymru) yn helpu i liniaru unrhyw effaith bosibl y gallai'r Bil ei chael ar ddigartrefedd.

Yr effaith ar dwristiaeth

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

217. Codwyd pryder eang mewn tystiolaeth y gallai'r Bil, o'i ystyried fel cyfanbeth, gael effaith niweidiol sylweddol ar y diwydiant carafannau gwyliau yng Nghymru, o ystyried y baich ariannol a gweinyddol y byddai'n ei roi ar berchnogion safleoedd.

218. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr, gan gynnwys Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Chartrefi Prydain, y Cyngor Carafannau Cenedlaethol, y Clwb

Carafannau a Chynghrair Twristiaeth Cymru, wedi mynegi pryder y byddai'r Bil yn rhoi'r sector parciau gwyliau a theithio yng Nghymru dan anfantais gystadleuol. Yn ôl y Gweinidog Tai ac Adfywio, y "canlyniad anfwriadol mwyaf sy'n deillio o'r Bil" oedd y byddai'n "gwneud Cymru yn llai cystadleuol o safbwynt twristiaeth na rhannau eraill o'r DU".¹⁴²

219. Roedd nifer o barciau carafannau gwyliau unigol wedi mynegi pryder am effaith y Bil ar eu busnesau, a soniwyd bod y cynnydd arfaethedig mewn rheoleiddio yng Nghymru yn debygol o ddylanwadu ar benderfyniadau busnes yn y dyfodol. Er enghraifft, dywedodd Vale Holiday Parks, sy'n berchen ar safleoedd yng Nghymru a Lloegr, y gallai benderfynu canolbwyntio'i ymdrechion yn Lloegr pe byddai'r Bil yn cael ei basio, a chwtogi'n raddol ar ei waith yng Nghymru.¹⁴³

220. Mewn perthynas â'r uchod, dywedodd yr Athro Fothergill y gallai'r Bil "remove significant spending power from coastal economies [and] add to the seasonality of local economies where there are large numbers of holiday caravans".¹⁴⁴

221. Cododd y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafannau bryder y byddai unrhyw gost a ddaw i ran perchnogion safleoedd yn sgil y Bil yn cael ei dalu yn y pen draw gan berchnogion carafannau gwyliau,¹⁴⁵ er enghraifft, ar ffurf ffioedd uwch am leiniau.

222. I'r gwrthwyneb i'r hyn a amlinellir uchod, awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y byddai'r Bil "would bring clarity to the caravan site industry to manage its sites on a holiday basis, and therefore, enhance tourism".¹⁴⁶ Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gyngor Sir Penfro.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

223. Wrth ymateb i'r awgrym y gallai'r Bil gael effaith negyddol ar dwristiaeth yng Nghymru, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

"I do not see any reason why an additional charge, which may be transferred to caravan owners themselves, of less than 1p

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS109

¹⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS60

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS1

¹⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS92

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 230, 5 Mehefin 2014

per day [...] is going to make a significant difference in terms of the way that people approach doing business in Wales.”¹⁴⁷

224. Roedd yn honni fel a ganlyn: “...it [the Bill] will give consumers more confidence to do business in Wales, it will drive up standards in the industry, and it will make our holiday caravan parks more attractive places to come to”.¹⁴⁸

Ein barn ni

225. Rydym yn rhannu'r pryderon a fynegwyd yn y dystiolaeth am effaith bosibl y Bil ar y diwydiant carafannau gwyliau ac ar dwristiaeth yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

226. Clywsom dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw gostau i'r diwydiant yn sgil y Bil yn cael eu trosglwyddo i feddianwyr carafannau ar ffurf ffioedd uwch. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn anodd rhagweld effaith bosibl ffioedd uwch ar ymddygiad defnyddwyr, credwn na ddylid anwybyddu hyn.

227. Pryderwn am yr honiad a wnaed gan y diwydiant y gallai'r gyfundrefn reoleiddio newydd arfaethedig a'r costau cysylltiedig yrru gweithredwyr safleoedd i Loegr. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y diwydiant parciau carafannau gwyliau i dwristiaeth yng Nghymru. Yn nhermau ehangach, rydym yn cydnabod cyfraniad sylweddol y diwydiant twristiaeth i economi Cymru. O ystyried hyn, a'r dystiolaeth a ddaeth i law, pryderwn y gallai'r Bil achosi ansicrwydd o fewn y diwydiant parciau carafannau gwyliau a gosod y diwydiant o dan anfantaes gystadleuol, ac y gallai effaith gyffredinol hynny niweidio twristiaeth yng Nghymru.

228. Rydym yn cydnabod y gallai'r ymrwymiad a roddwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol i ddiwygio darpariaethau penodol, gan gynnwys y prawf preswyllo gorfodol, helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a gododd y diwydiant am effaith bosibl y Bil ar dwristiaeth. Fodd bynnag, nid oeddem mewn sefyllfa i drafod hyn gyda'r diwydiant oherwydd cafodd yr ymrwymiad hwn ei wneud ar ddiwedd ein sesiwn casglu tystiolaeth.

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 25 Mehefin 2014

¹⁴⁸ Ibid

10. Ystyriaethau ariannol

Cost gyffredinol y Bil

229. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y Bil yn arwain at gostau o £1,266,000 yn y flwyddyn gyntaf, a chostau blynyddol o £277,000 yn y pedair blynedd ddilynol. Amcangyfrifir y byddai pum mlynedd gyntaf y Bil yn costio o leiaf £2,374,000. Perchnogion safleoedd, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am y costau newydd hyn.

230. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r costau canlynol i berchnogion safleoedd: y ffi trwydded safle, y prawf addas a phriodol, costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cais am drwydded, cadw gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r prawf preswyllo a phrosesau monitro'r awdurdod lleol, ac apelau.

231. Mae'r costau i awdurdodau lleol yn cynnwys trwyddedu a monitro safleoedd, costau llys a chostau hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, caiff y costau hyn eu gwrthbwyso i ryw raddau gan y refeniw a gynhyrchir o'r ffioedd trwyddedu.

Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

232. Ychydig o'r ymatebwyr a fynegodd farn am oblygiadau ariannol y Bil. Roedd y rhai a wnaeth sylwadau yn cwestiynu'r costau yn y Memorandwm Esboniadol, ac awgrymodd rhai bod y costau hynny wedi'u tanbriso.

233. Fel y soniwyd eisoes, awgrymodd cynrychiolwyr y diwydiant parc carafannau gwyliau y byddai'r gost i berchnogion safleoedd fodloni'r gofynion mewn perthynas â phrofion preswyllo yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif yn y Memorandwm Esboniadol.

234. Dywedodd y Cyngor Carafannau Cenedlaethol ei fod wedi cael gwybod mai'r amcangyfrif i'r diwydiant o gynnal profion preswyllo blynyddol oedd hyd at £150,000, o gymharu â'r £112,500 yn y Memorandwm Esboniadol.

235. Wrth fynegi sylwadau cyffredinol am oblygiadau ariannol y Bil, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“One of the fundamental concerns of local government is [...] that new duties placed upon local authorities are supported

properly by Government in terms of financial arrangements and a robust cost recovery framework.”¹⁴⁹

236. Yn ôl amcangyfrif Cyngor Sir Penfro roedd y gost i awdurdodau lleol o weithredu'r Bil un rhan o dair yn uwch na'r hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Eglurwyd mai'r rheswm am hyn oedd y rhagdybiaethau a wnaed gan yr Aelod sy'n gyfrifol am lefel y swyddogion sydd eu hangen i wneud y gwaith a'r ffaith nad oedd yr argostau corfforaethol wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau.¹⁵⁰

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

237. Fel y soniwyd eisoes, rhoddodd yr Aelod sy'n gyfrifol ymrwymiad i ddiwygio amllder yr archwiliadau safle a chymhwyso'r prawf preswyllo os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen y tu hwnt i Gyfnod 1. Dywedodd y byddai hyn yn lleihau cost y ffioedd trwyddedu tua 24%. Amcangyfrifir y byddai'r ffi trwyddedu yn costio £122 am bob safle ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i £2.61 fesul llain y flwyddyn. Dywedodd hefyd y byddai'r amcangyfrif o gost gyffredinol y Bil dros bum mlynedd yn gostwng 28%.

Ein barn ni

238. Rydym yn cydnabod y pryderon yn y dystiolaeth am yr amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r prawf preswyllo gorfodol ac ail-brofi blynyddol. Fodd bynnag, o ystyried ymrwymiad yr Aelod sy'n gyfrifol i gael gwared ar elfen orfodol y prawf, bydd y costau perthnasol i'r diwydiant a'r awdurdodau lleol yn gostwng. Rydym yn credu y dylai hyn dawelu eu pryderon i ryw raddau.

239. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod y bydd ymrwymiad yr Aelod sy'n gyfrifol i leihau amllder yr archwiliadau safle hefyd yn lleihau'r gost i'r awdurdodau, ac mae hynny i'w groesawu.

240. Rydym yn tynnu sylw'r Aelod sy'n gyfrifol at y dystiolaeth bod goblygiadau cyffredinol y costau i'r awdurdodau lleol wedi eu tanbrisiu'n sylweddol. Fodd bynnag, rydym yn fodlon, o dan gynigion y Bil, bod y pŵer i osod ffioedd er mwyn adennill y gost o drwyddedu, monitro ac arolygu, yn gorwedd gyda'r awdurdodau unigol.

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS105

¹⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, HCS88

Atodiad A - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth yn llawn yn

www.senedd.cynulliadcymru.org/ielssueDetails.aspx?Ild=9069&Opt=3

7 Mai 2014

Darren Millar AC Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

5 Mehefin 2014

Simon Wilkinson Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cynghorydd Philip Evans Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Nick Jones Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gareth Jones Cyngor Gwynedd

Samantha Hancock Cyngor Sir Penfro

11 Mehefin 2014

Carl Sargeant AC Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Alyn Williams Llywodraeth Cymru

Helen Kellaway Llywodraeth Cymru

Steve Munro Y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion
Carafannau

Dan Ellacott Y Gymdeithas Genedlaethol Perchnogion
Carafannau

Ros Pritchard OBE Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau
Cartrefi Prydain

Huw Pendleton Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau
Cartrefi Prydain (cynrychiolydd)

Alicia Dunne Y Cyngor Carafannau Cenedlaethol

Judith Archibold Y Cyngor Carafannau Cenedlaethol
(cynrychiolydd)

25 Mehefin 2014

Darren Millar AC Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliadcymru.org/mgConsultationDisplay.aspx?ID=123

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Yr Athro Fothergill, Prifysgol Sheffield Hallam	HCS(1)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	HCS(2)
Hoburne Cyf	HCS(3)
Edmund a Diane Cartwright	HCS(4)
Parc Carafannau Milton Bridge	HCS(5)
Parc Gwyliau Presthaven Sands	HCS(6)
Parc Gwyliau Golden Sands	HCS(7)
Parc Carafannau Carmel	HCS(8)
Parc Carafannau Emral Gardens	HCS(9)
Parc Carafannau Teithiol Hungerford Farm	HCS(10)
Parc Carafannau Barcdy yn Nhalsarnau	HCS(11)
Parc Carafannau Woodlands yn Harlech	HCS(12)
British Holiday & Home Parks	HCS(13)
Ymateb cyfunol:	HCS(14)
Cynghorydd R.H.Wyn Williams Cyngor Gwynedd;	
Cynghorydd Angela Russell, Ianbedrog;	
Cynghorydd Robert Wright, Pwllheli;	
Cynghorydd Gruffydd Williams, Nefyn; Cyngor Cymuned.	
Parc Gwyliau Park Farm ym Maenorbŷr	HCS(15)
Parc Carafannau Pensieri	HCS(16)
Parc Gwyliau Morfa Lodge	HCS(17)
Parc Cartrefi Gwyliau Freeman Green Meadow	HCS(18)
Parc Carafannau Terfyn Pella	HCS(19)
Parc Carafannau Fferm Maes Dolau	HCS(20)
Parc Carafannau Cambria	HCS(21)

Parciau Carafannau Moorlands	HCS(22)
Parc Gwyliau'r Parlwr Du	HCS(23)
Parc Carafannau Teithiol a Gwersylla Tyn y Mur	HCS(24)
Parc Carafannau Tandderwen	HCS(25)
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	HCS(26)
Parc Gwyliau Bardsey View	HCS(27)
The Caravan Club	HCS(28)
Parc Carafannau Patch; Llwyngwair Manor	HCS(29)
Comisiynydd y Gymraeg	HCS(30)
Parc Carafannau Dolhendre	HCS(31)
Parc Gwyliau Gaingc View	HCS(32)
Parc Gwyliau Llandanwg	HCS(33)
Parc Carafannau Maes Glas	HCS(34)
Maureen Walker, Parc Carafannau Tree Tops	HCS(35)
Andy Walker, Parc Carafannau Tree Tops	HCS(35A)
Parc Carafannau a Gwersylla Fforest Fields	HCS(36)
Morfa Ddu Park	HCS(37)
Whitehouse Leisure Park	HCS(38)
Canolfan Wyliau Golden Gate	HCS(39)
Parc Gwyliau Morben Isaf	HCS(40)
Bancroft Leisure	HCS(41)
St Lawrence Caravans Ltd	HCS(42)
Pant y Saer Caravan Park	HCS(43)
Aled Evans, Cynghorydd Ward Llanystumdwy	HCS(44)
Parc Carafannau Morgans Lodge	HCS(45)
Cynghrair Twristiaeth Cymru	HCS(46)
Parc Carafannau Broughton Farm	HCS(47)
Parc Carafannau Stone Pitt	HCS(48)
Croft Holiday Park; Celtic Holiday Parks	HCS(49)
Parc Carafannau The Pines	HCS(50)

The Plassey Leisure Park Ltd	HCS(51)
Matthew Baker Caravans Ltd	HCS(52)
Parc Carafannau Caerfelin	HCS(53)
Parc Carafannau a Hamdden Pen-y-fan	HCS(54)
Parc Penrhos	HCS(55)
Tai Pawb	HCS(56)
Carafannau Wood Park	HCS(57)
Parc Carafannau Oakfield	HCS(58)
Parc Carafannau a Gwersylla Diserth	HCS(59)
Vale Holiday Parks	HCS(60)
Parc Carafannau Sun Valley	HCS(61)
Parc Carafannau Plas	HCS(62)
Parc Carafannau Fir Trees	HCS(63)
Sefydliad Tai Siartredig Cymru	HCS(64)
Meldrum Leisure Ltd	HCS(65)
Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd	HCS(66)
Rheolwr Cyffredinol:	HCS(67)
Parc Gwyliau Brown's;	
Parc Hamdden Edwards;	
Parc Carafannau Happy Days	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	HCS(68)
Parc Carafannau Greenacres	HCS(69)
Parc Carafannau Torbant	HCS(70)
Lloyds Caravan Sales	HCS(71)
Parc Carafannau a Gwersylla Kingsbridge	HCS(72)
Parc Gwyliau Lydstep Beach Village	HCS(73)
Aeron Coast Holiday Ltd	HCS(74)
Parc Carafannau a Gwersylla Tyn Cornel	HCS(75)
Gwyliau Masterland Farm	HCS(76)
Parc Carafannau Fourways	HCS(77)

Parc Teithio a Chartrefi Gwyliau Riverside	HCS(78)
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru	HCS(79)
Cymdeithas Ymwelwyr Sir y Fflint	HCS(80)
Parciau Gwyliau Bestparks (G&H) Ltd	HCS(81)
Salop Leisure	HCS(82)
Parc Henstent	HCS(83)
Cyngor Sir Ddinbych	HCS(84)
Hampton Court Holiday Park	HCS(85)
Anchorage Caravan Park	HCS(86)
Pant Gwyn Farm Caravan Park	HCS(87)
Cyngor Sir Penfro	HCS(88)
Parc Gwyliau Porthclais Farm	HCS(89)
Parc Trefalun	HCS(90)
Cyngor Gwynedd	HCS(91)
Cymdeithas Genedlaethol Perchnogion Carafanau	HCS(92)
Parc Cartrefi Gwyliau Islawrffordd	HCS(93)
Grŵp Haulfryn	HCS(94)
Iechyd yr Amgylchedd Cymru	HCS(95)
Parc Gwyliau Cenarth Falls	HCS(96)
Parc Carafannau Hendwr	HCS(97)
Cyngor Cenedlaethol Carafanau	HCS(98)
Parc Dean	HCS(99)
Parciau Gwyliau Celtic	HCS(100)
Gwyliau Amroth Bay	HCS(101)
Parc Gwyliau Tan-y-Fron	HCS(102)
Cyngor Cymuned Llanengan	HCS(103)
Twristiaeth Gogledd Cymru	HCS(104)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	HCS(105)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	HCS(105a)
Cyngor Bro Morgannwg	HCS(106)

Dinas a Sir Abertawe	HCS(107)
Y Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth	HCS(108)
Y Gweinidog Tai ac Adfywio	HCS(109)
R. K. Slater-Mason	HCS(110)